

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 434 | Rhagfyr 2020


Tŷ Bach Twt t.9


Bro fy Mebyd t.18



Cwis Nadolig Y Tincer t.14

# Nadolig 2020



Plant Cylch Meithrin Trefeurig yn eu cyngerdd Nadolig rhithwir

## Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda






Hwn yn haeddu cael ei weld gan fwy na'r rhai sydd yn mynd heibio

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY cetmorgan@yahoo.co.uk 07966 510195]
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST – Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Ionawr Dyddiad cau** Ionawr 8 **Dyddiad cyhoeddi** Ionawr 20

**RHAGFYR 17** Nos Iau Plygain; trefnir gan Gymdeithas y Penrhyn mewn cydweithrediad ag Eglwys S. Ioan, Penrhyn-coch trwy gyfrwng ZOOM am 7.00. Manylion cysylltu trwy law y Parchg Lyn Dafis lyndafis@gmail.com

**RHAGFYR 18** Nos Wener Cydganu carolau gyda Côr ABC; i gael manylion a linc Zoom – corabc.cymru/carolau-nadolig o bell am 7.00

**2021**
**IONAWR 9** Dydd Sadwrn Sesiwn baneri gyntaf gan gangen gogledd Ceredigion YesCymru ger Ysgol Rhydypennau,Bow Street o 10.00 ymlaen. Croeso i bawb ddod i gefnogi.

**IONAWR 15** Nos Wener 'Cymru a Bryniau Casia: Sgwrs a Chân gan Gareth Bonello', Cymdeithas Lenyddol y Garn, am 7.30; cyfarfod dros Zoom – cysylltwch â'r ysgrifennydd i gael y manylion: marian_hughes@btinternet.com / 01970 828662.

**IONAWR 20** Nos Fercher Elfyn Llwyd yn trafod ei gyfrol Betws a'r byd; Cymdeithas y Penrhyn drwy Zoom am 7.30 - Cysyllter â'r Ysgrifennydd am fanylion cysylltu Ceris.Gruffudd@gmail.com

# Cyfeillion Y Tincer

## Ffurflen Gais Swyddogol i Ymuno â'r Clwb

ENW LLAWN ____________________

CYFEIRIAD ____________________

____________________

____________________

CÔD POST ____________________

RHIF FFÔN ____________________

**Taliadau**
Ticiwch y bocs priodol os gwelwch yn dda
☐ Arian neu siec
☐ Archeb banc

**Datganiad**

Dymunaf ymaelodi â Chlwb Cyfeillion Y Tincer a deallaf y bydd gofyn i mi dalu £10 am flwyddyn o Aelodaeth sydd yn cynnwys dau rif. Tynnir y rhifau yn fisol yn ystod 10 sesiwn plygu'r Tincer.
Cyhoeddir y rhifau buddugol yn Y Tincer

Llofnod ____________________


Dyddiad ____________________

Hoffai Ceris Gruffudd ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i gyfeillion a darllenwyr y Tincer. Yn ôl f'arfer ni fyddaf yn gyrru cardiau Nadolig ond yn cyfrannu – eleni i'r elusen Shelter Cymru.

# 30 MLYNEDD YN OL



Plant ysgolion Penrhyn-coch a Threfeurig ar ôl planu coed o amgylch y llyn yng Nghwmbwa, Penrhyn-coch. Llun: Hugh Jones (O Dincer Rhag 1990)



Y llyn heddiw
Llun: Judith Morris

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Tachwedd 2020
£25 (Rhif 120 ) Hywel Williams, 3 Bryn Meillion, Bow Street
£15 (Rhif 280 ) Gwenan Davies, 48 Ger-y-llan, Penrhyn-coch
£10 (Rhif 30 ) Mary Thomas, Ty Clyd, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyngiadau presennol.
Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com
Cofiwch fod amser ail ymuno yn dod fyny ar Ionawr 1.

**RHODD**
Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Di-enw (am gael derbyn rhifau digidol yn yr haf) £5.00

**SEFYDLU CANGEN *YesCymru***

Cynhaliwyd cyfarfodydd ZOOM yn ddiweddar er mwyn ffurfio cangen newydd o *YesCymru* yn yr ardal hon.

Mae mudiad *YesCymru*, sy'n ymgyrchu dros annibyniaeth i Gymru, wedi gweld cynnydd aruthrol yn ei aelodaeth yn ystod y flwyddyn. Mae iddo 15,000 o aelodau yng Nghymru erbyn hyn ac mae oddeutu 150 ohonynt yn byw yn y dalgylch rhwng Machynlleth ac Aberystwyth.

Er bod canghennau llewyrchus ym Mach ac Aber, roedd gwir angen ffurfio cangen newydd i wasanaethu'r ardal rhwng y ddwy dref. Ar un adeg bwriadwyd sefydlu cangen o'r enw Tal-y-bont ond gan fod nifer o aelodau yn dod o bentrefi eraill, penderfynwyd y byddai Cangen Gogledd Ceredigion yn enw mwy addas.

Ysgrifennydd y gangen am y tro yw Laura Hiscox, Tal-y-bont, ac mae modd dilyn y datblygiadau yma drwy'r cyfrif trydar @YesGogleddCered.

Bydd y sesiwn baneri gyntaf gan y gangen newydd yn cael ei chynnal yn Rhydypennau, Bow Street, ar fore Sadwrn 9 Ionawr am 10.00, felly mae'r gangen yn gofyn i'r holl aelodau ddod draw i chwifio baner, gan gofio gwisgo mwgwd a chadw pellter cymdeithasol.

## Cystadleuaeth ysgrifennu cerdd

Mae gan y Tincer gystadleuaeth ysgrifennu cerdd i blant blynyddoedd 5 a 6.

Y beirniad fydd Twm Ebbsworth. Bydd gwobrau - 1af £15, 2il £10 3ydd £5.


Beth am fynd ati ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 a gyrru eich cerdd ar y testun Agor drysau neu Bore newydd gydag enw ac enw ysgol neu gyfeiriad cartref i'r Golygydd d/o Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3HE neu i Ytincer@gmail.com cyn dydd Llun 11 IONAWR 2021. Nadolig llawen a hwyl ar y cyfansoddi!



Mae Twm wedi'i fagu ym mhentref Llanwnnen, ac mae'n fyfyriwr Drama ac Astudiaethau'r Theatr ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'n gobeithio graddio eleni. Enillodd Gadair y Ffermwyr Ifanc yn 2019 a Choron yr Eisteddfod Ryng-Golegol yn 2020. Mae wrth ei fodd yn chwarae pêl-droed i'r Geltaidd ac i glwb Sêr Dewi.

# Y BORTH

**Siop Closet yn cipio gwobr i Cari**




Mae gwraig fusnes o'r Borth wedi ennill gwobr am greu ffenest Nadoligaidd ar gyfer ei siop ddillad yng nghanol Aberystwyth.

Ychydig wythnosau'n unig sydd wedi bod ers i Cari Evans symud ei siop ffasiwn Closet o Stryd y Farchnad i Stryd Fawr Aberystwyth (Great Darkgate Street).

Fe agorodd ddrysau'r siop yn ei lleoliad newydd ar Ddydd Gwener 20 Tachwedd, yn fuan ar ôl i'r clo bach ddod i ben yng Nghymru.

Ac ar ddydd Mawrth 1 Rhagfyr, fe glywodd bod Closet ynghyd â busnesau Polly a Medina wedi enill cystadleuaeth Aberystwyth Ar Y Blaen ar gyfer y ffenest siopa Nadoligaidd orau.

"Rydw i wrth fy modd yn enill y wobr yma," meddai Cari, sy'n ferch i Dylan a Wendy Evans o fferm Pen-y-graig yn y Borth ac yn gyn ddisgybl yn Ysgol Rhydypennau ac Ysgol Penweddig.

"Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn rhyfedd iawn i unrhyw berchennog busnes ac mae symud y siop i leoliad newydd ar y stryd fawr wedi bod yn her ychwanegol. Mae'r ymateb gan gwsmeriaid wedi bod yn anhygoel a dwi'n ddiolchgar iawn i bawb am eu cefnogaeth."

Fe sefydlwyd busnes ffasiwn Closet gan Cari yn 2018 ac fe agorodd ei siop gyntaf ym mis Hydref 2018 yn Stryd y Farchnad cyn symud i'r Stryd Fawr. Mae hefyd yn gwerthu dillad arlein www.closetfashion.co.uk.

Dymunwn pob llwyddiant i Cari ac i fusnes Closet.



Mae Grŵp Celf Cymuned Ofalgar y Borth wedi creu addurn ar gyfer y bwrdd Nadolig fel rhan o'u pecyn celf diweddaraf.



Rhai o'r eitemau ar gyfer y Bocsys Nadolig sy'n cael eu rhoi i bobl oedrannus y Borth.

**Canolfan Deulu'r Borth**

Diolch yn fawr i bawb a gyfranodd eitemau ar gyfer Bocsys Nadolig yr henoed – yn gardiau, yn addurniadau, yn fenig wedi'u crosio, yn gatwadau ac yn sebonnau.

Diolch hefyd i'r Treehouse am eu cyfraniadau i'r bocsys, ac i'r Treehouse a'r Cletwr am eu rhoddion raffl. Diolch arbennig i Catriona Yule am ei chacennau a'i bisgedi blasus ar gyfer ein pecynnau Te Pnawn Gartref.




Mae Canolfan Deulu'r Borth wedi paratoi pecynnau gweithgareddau'r Nadolig i rai o blant y pentref.

**Muriel delaHaye 1930-2020**

Gyda thristwch mawr y clywedd cymuned y Borth am farwolaeth yr artist talentog Muriel delaHaye ar ddydd Gwener 4 Rhagfyr. Yn 90 oed, roedd hi'n gweithio'n ddyddiol yn ei stiwdio ar lawr uchaf ei chartref gyferbyn â'r môr.

Dros y blynyddoedd, cafodd ei lluniau olew trawiadol eu dangos yn orielau'r Albany yngnNghaerdydd, y Washington ym Mhenarth, yr Attic yn Abertawe a'r Tabernacl ym Machynlleth lle enillodd prif wobr ei Arddangosfa Haf ym 1994. Mae ei gwaith hefyd yn cael ei ddangos a'i werthu yn Libanus 1877.

Yn Oldham yn Sir Gaerhirfryn y cafodd Muriel ei geni ac fe'i hyfforddwyd yng Ngholeg Celf Rhanbarthol Manceinion. Penderfynodd ysgrifennu ei thraethawd hir ar L S Lowry ac fe gafodd gyfle i gwrdd a'r arlunydd enwog ar sawl achlysur yn ei gartref ger Glossop.

Ar ôl graddio, bu Muriel yn byw am ddegawd ar Ynysoedd y Sianel cyn symud i'r Borth dros 40 mlynedd yn ôl. Pobl yw prif destunau ei chelf ac mae lle amlwg yn ei lluniau i'r môr a thraethau'r Borth a Bae Ceredigion.

Mae ei mab, Louis, hefyd yn byw yn y Borth ac estynnwn pob cydymdeimlad iddo ef ynghyd a'r teulu ehangach a ffrindiau.

**Sesiynau ffitrwydd ar Facebook**

Mae ymarferydd ffitrwydd o'r Borth wedi bod yn cynnig sesiynau arlein arbennig i helpu pobl i gadw'n heini a

bwyta'n iach yn ystod cyfnod Covid-19.

Penderfynodd Rachel Hubbard sefydlu grwp 'Caffi Hapus' ar Facebook yn dilyn y newyddion y byddai cyfyngiadau newydd yn cael eu cyflwyno ar draws Cymru o 23 Hydref tan 9 Tachwedd.

Yn ystod y toriad tân byr, bu'n cynnig amrywiaeth o sesiynau ymarfer corff megis Pilates ac Aerobeg yn ogystal â sgyrsiau i gefnogi iechyd corfforol a meddyliol.

Roedd dros 150 o bobl wedi cofrestru ar gyfer y 'Caffi Hapus' ac oherwydd ei boblogrwydd, mae Rachel bellach wedi agor 'Caffi Nadolig Llawen' ar gyfer mis Rhagfyr.

Drwy gydol y mis, mae hi'n cynnal sesiynau nosweithiol yn cynnig amrywiaeth o sesiynau ffitrwydd ymarferol a sgyrsiau.

Dywedodd Rachel, sydd wedi bod yn dysgu ffitrwydd ers dros 30 o flynyddoedd ac sydd â gradd mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff: "Mae ymarfer corff wedi bod yn rhan bwysig o fy mywyd erioed ond yn ystod y cyfnod clo cyntaf, fe gollais ddiddordeb mewn cadw'n heini a bwyta'n iach. Doeddwn i ddim yn teimlo fel fi fy hun, roeddwn i wedi dechrau magu pwysau, ac roedd fe egni a fy mrwdfrydedd naturiol wedi pylu.

"Roeddwn i'n ymwybodol nad fi yn unig oedd yn teimo fel hyn felly pan gyhoeddwyd bod ail gyfnod clo ym mis Hydref, fe benderfynais fynd ati i wneud rhywbeth positif am y peth. Fe sefydlais grŵp ffitrwydd ar Facebook gan obeithio y byddai rhwng 20 a 30 o bobl yn ymuno - ond er mawr syndod i fi, roedd dros 150 o bobl wedi ymuno o fewn dim!

"Roedd yr ail gyfnod clo wedi para 17 diwrnod ond roedd cymaint o ddiddordeb ac awydd ymhlith pobl i barhau, dwi bellach wedi sefydlu Caffi Nadolig Llawen ar gyfer mis Rhagfyr. Mae'n lot o waith ond mae hefyd yn lot fawr o



hwyl. Dwi wrth fy modd yn rhannu cyngor a gwybodaeth am y gwyddoniaeth y tu cefn i gadw'n heini yn ogystal ag arwain sesiynau ymafer corff fel Pilates ac Aerobeg.

"Hoffem ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a gobeithio bod y Caffi Hapus a'r Caffi Nadolig wedi profi'n fuddiol i'r corff a'r enaid!"

**Eglwys Sant Matthew**

Mae Eglwys Sant Matthew wedi ail-ddechrau cynnal gwasanaethau.


Cynhaliwyd y cwrdd gweddi cyntaf ers y cyfnod clo fore Sul 6 Rhagfyr a'r bwriad yw parhau am yn ail wythnos am y tro. Gofynnir i bawb gadw at reolau ymbellhau cymdeithasol a gwisgo gorchudd wyneb. Mae manylion gwasanaethau'n cael eu cyhoeddi ar dudalen Facebook yr Eglwys.

# Llyfr newydd ar hanes cymeriadau lleol

Mae Richard Huws wedi cyhoeddi llyfr arall ar hanes Bont-goch i gydfynd â'i gyfrol Enwau Tai a Ffermydd Bont-goch (Elerch), a gyhoeddwyd yn 2017.

Mae POBOL Y TOPIE / BONT-GOCH LIVES yn gyfrol ddwyieithog, ac yn cynnwys hanes difyr dros 100 o ddynion a merched a wnaeth gyfraniad i fywyd cyfoethog un o gymunedau gogledd Ceredigion, tra bod eraill a anwyd yn Bont-goch, wedi gwneud eu cyfraniad y tu hwnt i Geredigion, mewn rhannau eraill o Gymru, yn Lloegr, ac mewn nifer o wledydd tramor gwahanol.

Yn eu plith mae arlunwyr, athrawon, awduron, beirdd, bonedd, cenhadon, crefftwyr, ffermwyr, gweinidogion ac offeiriaid, milwyr, mwynwyr a pheirianwyr mwyngloddio,




a detholiad o gymeriadau gwledig sy'n cynnwys ambell ecsentrig.

Mae'r awdur wedi byw yn Bont-goch ers ugain mlynedd. Cyn ei ymddeoliad bu'n Bennaeth Gwasanaethau Darllen ac Ymholiadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

168 tudalen. Pris: £12-00

Mae'r gyfrol ar werth mewn siopau llyfrau a rhai siopau lleol, ac ar wefan Cyngor Llyfrau Cymru, sef www.gwales.com


**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**

Perchennog: Lawrence Kelly

**AR AGOR**
**Llun – Sadwrn**
**7 y bore – 9 yr hwyr**
**Sul**
**7 y bore – 7 yr hwyr**

**Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch siop drwyddiedig**

**01970 828312**

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán
01970 820149
07980 687475

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
*Ar agor*
*Llun-Sadwrn*
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

# Myfyrdod Nadolig y Tincer 2020

"Iesu Grist, yr un ydyw ddoe a heddiw ac am byth" [Hebreaid 13:8]

Mae'r Nadolig ar y trothwy unwaith eto. Cofio'r Nadolig cyntaf yw sail y dathlu blynyddol hyn. Hyd yn oed yng nghanol y pandemic ofnadwy yma mae bobol yn dal i edrych ymlaen i ddathlu'r Nadolig. Mae'n debyg mai lleiafrif erbyn hyn fydd y rhai ohonom fydd yn dathlu'r Nadolig cyntaf hwnnw ym Methlem Jiwda – dathlu dyfodiad Mab Duw yn y cnawd, dathlu cyflawniad yr holl baratoi a'r proffwydo ymlaen llaw a dathlu neges yr angel i'r bugeiliaid – "Ganwyd i chwi heddiw ...Geidwad ...yr Hwn yw Crist yr Arglwydd". Mae'n drist i ni sylweddoli nad yw ffeithiau'r Nadolig cyntaf yn wybyddus i lawer erbyn hyn. Rydym yn byw mewn gwledydd ol-Gristnogol bellach. Mae'n embaras i lawer fod enw'r Arglwydd Iesu yn gysylltiedig a'r Wyl [er fod Ei enw ar yr Wyl yn y Saesneg] . Ond mae Emaniwel - Duw gyda ni – yn Waredwr ac yn gymorth presennol.

Roedd 'na dristwch yn ogystal a llawenydd yn y Nadolig cyntaf. Ar wahan i Herod a'i lid, cafodd Mair neges gan Simeon yn y deml – neges yn proffwydo gwrthodiad a marwolaeth ei Mab. A dyna pam nad y Nadolig yw penllanw dathlu'r Cristion. Daeth marwolaeth yn gynnar i brofiad y fam a'r Mab ac eto dathlu fyddwn ni nid cofio yn unig. Prin mae rhywun yn gwneud mwy na chofio ar ol colli anwylyn i farwolaeth. Dyna pam mae dathlu'r Nadolig ynghlwm wrth y groes a'r atgyfodiad. Emaniwel oedd y baban a anwyd – "Duw gyda ni" [Mathew 1 :23] Mae'r Nadolig yn dal i gael ei ddathlu oherwydd y trydydd dydd gogoneddus hwnnw pan gododd yr Arglwydd yn fyw o'r bedd. Nid oedd raid iddo wynebu marw byth wedyn. Mae carolau'r Plygain yn llawn o'r gwirioneddau hyn. Maen nhw yn canolbwyntio ar y darlun cyfan. Maen nhw yn cysylltu addewidion yr hen destament gyda'r cenhedlu gwyrthiol a'r enedigaeth hir – ddisgwyliedig. Maen nhw yn llawn o orfoledd y dathlu sydd wedi parhau oddiar yr atgyfodiad hwnnw pan roddwyd sel ar yr aberth, yr aberth agorodd ddrws y nefoedd i bob un sy'n ymddiried yn y Gwaredwr. Mae pob Nadolig yn yr amser presennol yn gyfle i ddathlu genedigaeth y Mab ac ail-enedigaeth ei blant ysbrydol.

Mae carolau'r Plygain hefyd yn edrych i'r dyfodol at gyflawniad yr holl addewidion. Yn wyneb yr hyn sydd wedi digwydd yn barod, mae gennym hyder yn y dyfodol. Mae addewidion ar ol i'w cyflawni a'r Ysbryd Glan wedi eu cofnodi er ein cysur. Os oedd y Nadolig cyntaf bron yn anghredadwy o oruwchnaturiol, bydd diwedd pob Nadolig yn fwy felly. Roedd y credinwyr cyntaf yn barod i farw dros y gred fod eu Harglwydd yn yn fyw ac yn mynd i ddod yn ôl mewn gogoniant i hawlio Ei frenhiniaeth. Mae'r holl ferthyron ers hynny, gan gynnwys merthyron y byd presennol, yn unol yn disgwyl iddo gyflawni Ei addewidion. A dyna ddigon o reswm i ddathlu a llawenhau y Nadolig yma eto.

"Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddoEf beidio a mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol". [Ioan 3 : 16}

**Ifan ac Anne Mason Davies**

## Cyngor Cymuned Tirymynach

Y mae`r Cyngor wedi cyfarfod ddwywaith yn ystod y misoedd diwethaf. Ar y 24ain o Fedi cyfarfod yn yr awyr agored ar fuarth Fferm Brysgaga a gynhaliwyd. Wrth groesawu pawb i`r cyfarfod diolchodd y Cadeirydd, Meinir Lowry, i`r Cynghorydd Rowland Rees am fedru cyfarfod ym Mrysgaga ac am ddarparu sedd i bawb. Wedi mynd trwy`r materion agoriadol oedd yn cynnwys derbyn cofnodion cyfarfod mis Chwefror a delio â`r materion oedd yn codi o`r cofnodion hynny cadarnhawyd Meinir Lowry yn Gadeirydd a Robert Pugh yn Is Gadeirydd am flwyddyn arall. Yn ôl yr arfer cafwyd adroddiad cynhwysfawr gan y Cynghorydd Sir, Paul Hinge, ar ystod eang o bynciau ond mae`n debyg mae`r sylwadau ar nifer o geisiadau cynllunio greodd yr argraff fwyaf. Yn gefndir i`w sylwadau ar geisiadau cynllunio nododd bod y Cyngor Sir yn gefnogol iawn i`r egwyddor o geisio sicrhau bod eu penderfyniadau yn ymateb yn bositif i anghenion lleol yn hytrach na dilyn canllawiau canolog yn slafaidd. Yr oedd gan y cyfarfod gydymdeimlad llwyr â`r egwyddor honno ac yn gweld ei pherthnasedd mewn cysylltiad â dau gais lleol cyfredol. Y cais a greodd yr ymateb cryfaf oedd cais i ddatblygu canolfan maes carafannau Glan-y-môr yng Nghlarach, yn arbennig felly pan ddaeth yn amlwg nad oedd modd defnyddio`r lle parcio ar lan y môr yno bellach. Penderfynwyd bod angen dilyn yr ysgyfarnog hon ymhellach ar fyrder. Ar ddiwedd y cyfarfod mynegodd y Clerc ei fod yn ystyried ymddeol fel Clerc yn ystod 2021.

Ar y 26ain o Dachwedd y cynhaliwyd yr ail gyfarfod a hynny trwy gyfrwg ystafell gynhadledd rithiol WhyPay? Y Cynghorydd Meinir Lowry oedd wrth y llyw ac yn naturiol y brif eitem ar yr agenda oedd materion yn ymwneud â`r cynlluniau ar gyfer Glan-y-môr yng Nghlarach. Y gofid mwyaf oedd y posibilrwydd o golli`r lle parcio ar lan y môr o gofio ei fod wedi cael ei ddefnyddio fel lle parcio ers cyn cof a`i fod hefyd yn cael ei ddefnyddio gan fysiau fel lle i droi rownd ac hefyd fel lle fyddai`n rhoi mynediad i wasanaethau brys i`r traeth mewn argyfwng. Addawodd y Cynghorydd Hinge y byddai`n mynd ar ôl perchnogion newydd Glan-y-môr ar unwaith er mwyn iddynt gael ar ddeall union deimladau trigolion brodorol yr ardal.

Fe gafodd materion ariannol sylw hefyd. Penderfynwyd talu Trefor Jones am dorri porfa ac yn wyneb y ffaith nad oedd y Clwb Pêl-droed, Ffrindiau Cartref Tregerddan na Pwyllgor Henoed Bow Street a Llandre wedi medru cynnal unrhyw ddigwyddiadau codi arian yn ystod y flwyddyn penderfynwyd rhoi taliad bonws iddynt o arian a arbedwyd mewn cyfeiriadau eraill. Penderfynwyd symud ymlaen i gael Coeden Nadolig ac i gael hysbysfwrdd hefyd. Bydd y cyfarfod nesaf doed a ddelo trwy ryw gyfrwng ar Ionawr 28in 2021 pryd y bydd angen llunio cyllideb 2021/22, gosod praesept 2021/22 a dosbarthu arian i gymdeithasau a mudiadau lleol o gyllideb 2020/21.

## TREFEURIG

Bydd gwylwyr yn gyfarwydd a gweld Aneirin Hughes yn ymddangos yn y gyfres ddiweddaraf Un bore Mercher ar S4C ond tybed faint ohonoch sydd yn gwybod mai Ela ei ferch sydd yn canu y gân yn y gyfres. Diolch i Linda Griffiths am dynnu sylw at hynny ar ei rhaglen radio fore Sul. Mae Ela wedi graddio gyda gradd dosbarth cyntaf mewn anthropoleg a'r cyfryngau. Gellir clywed ei chaneuon ar Spotify.





Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Eglwys Efengylaidd Aberystwyth

MAE'R NADOLIG YN...?

Agorwch ein

CALENDR ADFENT

Pryd? o'r 1af Rhagfyr tan Ddydd Nadolig

Sut? Dilyn @eglwysefengylaiddaberystwyth

@EgEfAber

ac ar ein gwefan

Cynhelir ein

GWASANAETH CAROLAU

ar-lein ar Ddydd Sul 20fed Rhagfyr am 5.00yp

GWASANAETH DWYIEITHOG

Bore Dydd Nadolig am 10.00

EDRYCHWN YMLAEN YN FAWR AT GAEL EICH CWMNI!

www.eglwysefengylaiddaberystwyth.co.uk / 01970 820 496

## Colofn Elin Jones



Mae brwydro yn erbyn yr ail don o glefyd y Coronafeirws wedi parhau i fod yn ganolbwynt yn y Senedd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dyna'r rheswm y tu ôl i'r clo byr buodd yn ddiweddar. Rydym i gyd yn aros i weld gwir effaith y clo hwn, ond mae arwyddion cynnar yn awgrymu ei fod wedi arafu lledaeniad Covid yn gyffredinol.

I ni yng Ngheredigion, lle'r oeddem wedi gwneud cymaint yn ystod y don gyntaf i atal y gwaethaf o'r Coronafeirws, rydym wedi cael ein taro gan nifer o achosion, a'r rhai mwyaf difrifol ohonynt yn Aberteifi, ym Mron-glais a chartref preswyl Hafan y Waun.

I'r gofalwyr hynny a gweithwyr y GIG sy'n gweithio ddydd a nos i ofalu am gleifion a phreswylwyr, rydym yn hynod o ddiolchgar i chi ac yn gwerthfawrogi popeth rydych yn ei wneud. Yn ein meddyliau ni mae'r-teuluoedd sydd yn galaru yn dilyn profedigaeth, a hefyd teuluoedd preswylwyr y cartref sydd yn methu ag ymweld â'u hanwyliaid ar adeg sydd mor anodd i bawb yno.

Yn Aberteifi, mae'r Cyngor yn gweithio'n gyflym i ddelio gyda'r clwstwr o achosion sydd yn y gymuned, ac mae'n parhau i olrhain a chysylltu gyda'r rheini sydd wedi bod mewn cysylltiad gyda'r feirws. Mae'r system olrhain a phrofi yn parhau i fod yn arf allweddol i ni yma.

Cawsom newyddion gobeithiol iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf am sawl brechiad. Mae hyn yn dangos bod golau ym mhen draw'r twnnel. O'm cyfarfodydd ddwywaith yr wythnos gyda'r Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Ceredigion ers dechrau'r pandemig, gwn fod cynlluniau i gyflwyno'r brechlyn ar raddfa fawr yn lleol yn barod. Fodd bynnag, nid yw'n sicr pa mor gyflym y bydd y brechiadau ar gael i ni. Yn y cyfamser, rhaid i ni barhau i fod yn wyliadwrus, cadw ein pellter, a lleihau ein cysylltiadau ag eraill.

Wrth i ni nesáu at y Nadolig, yr wyf yn falch o weld bydd profion ar gael i fyfyrwyr cyn iddynt fynd adref. Rydym yn dal i aros i weld pa gynlluniau bydd yn eu lle ar gyfer yr adeg pan bydd y myfyrwyr yn dychwelyd yn y flwyddyn newydd, a byddaf yn parhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod profion ar gael i fyfyrwyr cyn iddynt ddychwelyd i Geredigion.

Efallai mai'r Coronafeirws yw'r pwnc amlycaf yn fy ngwaith yn y Senedd, a'm gwaith etholaethol, ond mae nifer fawr o faterion eraill yn dal i fod yn nodwedd o'm gwaith bob dydd. Mae'r rhan fwyaf o'm cyfarfodydd ar Zoom ac yn ddiweddar rwyf wedi cynnal cyfarfodydd yn amrywio o drafod diogelwch ar yr A487 i lifogydd yn Aberteifi a Felin-fach, o dai i bobl ifanc i gyfleusterau chwarae plant ym Mhenparcau.

Delio â fy mewnflwch e-bost yw'r rhan brysuraf o'm bywyd y dyddiau hyn, ac mae croeso i unrhyw un gysylltu ar elin.jones@senedd.cymru ynghylch unrhyw bwnc.

## Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion bro'r Tincer!

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Gwasanaethau'r Sul**
Mae ein gwasanaethau yma ym Mhenllwyn yn parhau yn gyson dan ofal y Parchg Dr. Watcyn James.
Drwy y dulliau digidol sydd mor werthfawr ar yr adeg hon, cawn gyfarfod fel Gofalaeth a dod i adnabod ein gilydd, a chael bendith o gael clywed y Gair yn ei burdeb. Cawn ein harwain yn achlysurol gan y Parchg Ddr. John Tudno Williams yn ogystal.
Bydd y plant yn elwa hefyd o gael Ysgol Sul ar zoom, a phob un yn cyfrannu ac yn mwynhau y gwersi amrywiol.
Dymunwn Nadolig Llawen, gan gofio gwir ystyr yr Wyl, a Blwyddyn Newydd Obeithiol i bob un.

**Merched y Wawr Melindwr**
Yn gyntaf rhaid diolch i bob aelod o'r gangen sydd wedi ymaelodi eleni. Mae'n bwysig ein bod fel cangen yn cynorthwyo ein Mudiad yn y cyfnod anodd yma.
Fel swyddogion mae'n bwysig cadw cysylltiad efo ein haelodau. 'Rwyf am ddiolch yn arbennig i Mrs Ann James am drefnu I ddosbarthu ein cylchgrawn bob yn ail fis. Balch 'rydym I'w dderbyn ac yn mwynhau ei ddarllen.

Diolch hefyd i Mrs Beti Daniel am gysylltu â phob aelod ac i dderbyn ein tâl aelodaeth.

Erbyn hyn rydym yn 16 aelod ac mae'n dal i fod yn agored i ymaelodi os dymunwch.

O ran pwynt gweithgareddau'r tymor mae'n rhaid derbyn y ffaith fydd ddim yr un fath ag arfer.

Mae y Mudiad Rhanbarthol a Chenedlaethol yn gwneud eu gorau i gadw y Felin i droi gyda cystadlaethau amrywiol rhithiol. Yr un olaf erbyn hyn yw Sioe Aeaf Rithiol diwedd mis Tachwedd. Byddwn yn gweld eisiau y Sioe arferol yn Llanelwedd ond bydd yn werth gweld y ceisiadau ar y cyfryngau cymdeithasol niferus. Diolch i Mrs Tegwen Morris ein Cyfarwyddwr Cenedlaethol a'i thîm sydd yn trefnu'r holl ddigwyddiadau.

Yn ddiweddar cawsom ein croesawu i noson hwylus yng nghwmni Aled Wyn Davies ,Pentre Mawr ,Llanbryn-mair.
Mae pawb yn ei adnabod fel un o'r Tri Tenor. Erbyn hyn mae wedi cyhoeddi hunangofiant sydd yn hanesyddol iawn.
Mae'n syndod fel yr ydym yn dod yn

gyfarwydd â ffordd ddigidol o gysylltu gyda 73 o aelodau Canolbarth Ceredigion yno i'w glywed. Diolch i'r swyddogion Rhanbarthol am drefnu. Braf oedd gweld sawl aelod o'n cangen yno ac yn mwynhau.

Byddwn yn gobeithio cyfarfod yn ddigidol yn fuan i drefnu cylch cerdded.
Os oes aelodau a unrhyw syniadau o weithgareddau neu unrhyw newyddion personol byddwn yn falch o'u derbyn.

Yn olaf rhaid diolch yn fawr iawn am y gwaith mae Mrs Heulwen Lewis yn ei wneud yn cadw ni yn wybyddus o holl fusnes ein Mudiad. Tan hynny rydym yn dymuno eich bod yn cadw'n saff. Daw eto haul ar fryn.

**Gwellhad Buan**
Dymunwn fel ardal wellhad buan i Mr. Garth Hughes, Bryn Awelon a Mr. Gwyn Edwards, Hyfrydle, y ddau wedi treulio amser yn yr ysbyty yn ddiweddar, ond gartre gyda'u teuluoedd erbyn hyn ac yn teimlo lawer yn well gobeithio.

**Rhaglen Sian Cothi**
Hyfryd oedd clywed llais y podeiatrydd, Angharad Dafydd ar raglen Shan Cothi yr wythnos hon. Cawsom ganddi ei hanes pan yn gweithio yn Llundain ond erbyn hyn fel y gwelwyd yn Nhincer Tachwedd mae wedi sefydlu busnes iddi hi ei hun yn Bodalwyn, Aberystwyth. Da gweld y to ieuanc yn llwyddo ac yn medru dychwelyd i'w cymunedau i'w cyfoethogi. Pob dymuniad da i ti Angharad.

**Y cwpl lleol tu ôl i Olew Olewydd Dihalog Tŷ Bach Twt**
Sut, meddwch chi, mae cwpl lleol wedi "ymddeol", yn cynhyrchu Olew Olewydd Dihalog? Mae Helen a Selwyn Williams o Gapel Bangor, yn gwneud union hynny, a dyma'i hanes.

Dechreuodd y fenter trwy hap a damwain mwy neu lai. Ar ôl ymddeoliad Selwyn, dechreuodd y ddau chwilio am rywle heulog dramor. "Gyda'r ddau ohonom yn dod o gefn gwlad – (Selwyn o Ben Llŷn a finnau o Lanberis) – doedd y syniad o fflat ddim yn apelio"", meddai Helen. Felly aethon ati i dreulio amser yn Sbaen, ac yn y diwedd prynu fferm 9 acer yng Nghatalonia.

Roedd y bwthyn yn adfail, a'r coed olewydd a'r tir wedi eu hesgeuluso er blynyddoedd maith. Dim cyflenwad trydan, dim cyflenwad dŵr heblaw'r casgliad o law oddi ar y to. Ond roedd yr olygfa yn fendigedig – yn edrych lawr ar Fôr Y Canoldir, a dros gaeau reis Delta'r afon Ebre. A mynyddoedd Coll de L'Alba wrth gefn. Nefoedd ar y ddaear.

Eglurodd Selwyn: " Mae nifer o'r ffermydd olewydd ar y tir uchel yn wag erbyn hyn. Yn syml, mae'n amhosib i fecaneiddio gan fod y tir mewn terasau, a'r llethrau o un teras i'r llall yn rhy serth a chul i unrhyw dractor. Mae teuluoedd lleol wedi symud i'r tir gwastad, lle mae'n haws trin y tir.

Aeth y ddau ati i adnewyddu'r tŷ gan






## Swyn y môr

Wrth gerdded ar draeth Aberystwyth ychydig wythnosau nôl, ffeindiais garreg siâp calon perffaith. Daliais y garreg yn fy llaw a theimlo cysylltiad cryf at Ned, fy mab bach 5 oed a fu farw mewn damwain car yn 2016. Es i â'r garreg adre a phenderfynu creu llun er mwyn cadw'r garreg yn ddiogel. Dyluniais robin goch yn sefyll ar ddarn o froc môr, gyda'r garreg calon uwch ei ben. Mae gweld robin goch hefyd yn gwneud i mi deimlo cysylltiad â Ned.

Teimlais lonyddwch a thawelwch meddwl wrth greu'r llun, a phenderfynu y byswn yn gwneud rhagor, yn anrhegion Nadolig i fy nheulu. Rhoddais bost ar Facebook yn sôn am fy niddordeb newydd, a'r elfen therapiwtig ohono. Cefais ymateb anhygoel, gyda nifer yn holi os oedd fy ngwaith ar werth. Felly gydag anogaeth ffrindiau agos, dyna nes i! Sefydlais fusnes bach ar-lein er mwyn gwerthu fy ngwaith crefft – 'Swyn y Môr'.

Mae'r ymateb i 'Swyn y Môr' wedi bod yn anhygoel. Mae archebion ar gyfer fy ngwaith yn dod mewn yn



gyflogi adeiladwr lleol. Erbyn hyn mae'r bwthyn bach yn glud a chyfforddus, gyda chyflenwad trydan solar. Wedyn dechreuon ar drin y tir a'r coed. Mae rhai ohonynt yn gannoedd o flynyddoedd oed, a'r gwaith yn brosiect adfer i ddod â'r hen goed mawreddog hyn yn ôl i'w llawn ogoniant.

Ar ôl wyth mlynedd mae'r holl waith caled bellach yn dechrau dwyn ffrwyth. Erbyn hyn, gydag arbenigedd ffrind a chymydog, mae Selwyn a Helen yn gyfarwydd iawn â beth sydd yn gwneud olew olewydd o'r safon uchaf.

Mae popeth yn cael ei wneud gyda llaw: hel yr olewydd i'r rhwydau, eu casglu a'u didoli - gan wrthod unrhyw ffrwyth sydd wedi'u difrodi. Mae'r cynnyrch yn mynd yn syth oddi ar y coed i'r felin pob pnawn, lle mae'n cael eu gwasgu mewn melin fodern ar dymheredd o 24 gradd Celsius. Hyn i atal ei ocsideiddio a thrwy hynny cadw'r rhinweddau antiseptig, a'r blas godidog.

"Mae'r gerdd draddodiadol 'Mae gen



i dipyn o dŷ bach twt' yn arbennig o berthnasol i leoliad ein fferm felly dyna sut y dewiswyd yr enw", eglurodd Helen.

Wedyn roedd y sialens o gael hyd i derm addas ar gyfer "Extra-Virgin Olive Oil". Mae term safonol ar gyfer "Virgin Olive Oil" ond nid "Extra-Virgin". Ymgynghorwyd â fforwm iaith, gan sbarduno trafodaeth ddifyr, ac ar ôl i Selwyn egluro'r broses o gynhyrchu'r olew, y farn oedd mai'r term 'dihalog' oedd y mwyaf addas.

Mae'r cwpl yn hynod o falch o safon eu cynnyrch, a hefyd o fod wedi bathu term Cymraeg hollol newydd!

Gellir cysylltu â Helen a Selwyn trwy ebost TyBachTwtCatalonia@gmail.com, neu ar eu tudalen Facebook: @TyBachTwtCatalonia

ddyddiol, o bob cwr o'r wlad. Mae nifer yn rhannu eu storïau nhw o golled, galar ffrind neu aelod o'r teulu. Mae'n deimlad arbennig creu darn o waith fydd yn golygu cymaint i rywun arall.

Gallwch ymweld â thudalen 'Swyn y Môr' ar www.facebook.com/smjbeachart

Mae fy ngwaith hefyd ar werth yn Siop y Pethe.

Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i bob un sydd wedi cefnogi 'Swyn y Môr' hyd yn hyn. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr i ddatblygu'r busnes ymhellach yn y Flwyddyn Newydd.

**Sharon Marie Jones**

## DOL-Y-BONT

**Pen blwydd arbennig**

Dymunwn benblwydd hapus i Phill Turner Wright, Brynddderwen ar ddathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar.

*Trefnwyr Angladdau*
*C T Evans*
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

GWE Cambrian WEB
**Gwefannau Gwych o Gymru**
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*
**Cysylltwch Heddiw**
info@cambrianweb.com
**01970 623 906**

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
**01970 626 200**

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

# PENRHYN-COCH

**Oedfaon Horeb**
**Rhagfyr**
**20** 2.30 Oedfa Nadolig Y Parchg Peter Thomas
**25** Ni fydd oedfa fore Nadolig eleni oherwydd amgylchiadau

**2021**
**Ionawr**
**3** 2.30 Oedfa Y Parch Peter Thomas
**24** 10.30 Oedfa Y Parchg Judith Morris

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Alex a John Carter ar enedigaeth merch fach - Molly Alexandra ar 24 Tachwedd; chwaer fach i Elsie a wyres arall i Jane a Daniel Thorogood.

**Croeso**
Croeso i Benrhyn-coch o Lanilar i Meical a Nathalie Richards, Cameron, Jac ac Olly i Minffordd (Tŷ Mawr gynt) o Lanilar. Mae'r teulu a diddordeb yn y ty ac wrthi yn cael hanes drwy wefan Trefeurig am yr adeilad arferai fod yn dafarn. Os oes gan unrhyw un luniau neu wybodaeth byddant yn ddiolchgar o'i gael.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Simon, Tomos a Medi Hulme, a gweddill y teulu, Llanilar, gynt o Ganolfan Astudiaethau Rheidol, ar farwolaeth Shirley ar Dachwedd 9 yn Ysbyty Bron-glais.

**Gwefan Trefeurig ar ei newydd wedd!**
trefeurig.cymru
Os ydych wedi ymweld â gwefan Trefeurig yn ddiweddar byddwch wedi sylwi ei bod yn edrych yn wahanol. Mae'r diwyg yn newydd a'r lliwiau wedi newid ac ychwanegwyd dolenni uniongyrchol i gyfryngau cymdeithasol megis YouTube, Twitter, Facebook ac Instagram. Er enghraifft, gellwch wrando ar Sorela a chantorion eraill, pigion o'r Steddfod a'r Plygain, ac ar feirdd a llenorion lleol yn darllen eu gwaith. Ac i'r rhai hynny ohonoch sy'n mwynhau edrych ar yr hen luniau, maen nhw'n dal yno yn yr adran 'Hanes' a 'Y Gymuned'.

Cofiwch fod croeso ichi anfon newyddion, hysbysebion, neu luniau o unrhyw ddigwyddiad neu weithgarwch at whhowells@gmail.com

Mae'r wefan yn dal i dyfu. Ewch draw i trefeurig.cymru a mwynhewch!

**Swydd newydd**
Llongyfarchiadau i Gwyddno Dafydd – Rhandir gynt; sydd wedi ei benodi yn Uwch Swyddog i'r Wasg i Brif Weinidog Cymru. Bu Gwyddno yn gweithio gyda Newyddion BBC yng Nghymru ers 17 mlynedd. Dymuniadau gorau iddo yn ei swydd newydd.

**Artistiaid yn cynorthwyo Banciau Bwyd**
Mae Gwenllian Spink yn wyneb cyfarwydd yn y pentref gan ei bod yn ymweld yn gyson a nain a taid ( Daniel a Helga Huws) yn Nhyddyn Seilo. Bu Gwenllian yn un o artistiaid ifanc yn y dref fu'n rhoi o'u doniau i drefnu codi arian i'r banciau bwyd trwy ddechrau'r fenter Cronfa Banc Bwyd Cymru a lansiwyd ar Dachwedd 28ain. www.welshfoodbankfund.com Mae

ganddynt gyfrif Instagram: https://www.instagram.com/welshfoodbankfund/

Bydd mwy o ddarnau yn cael eu hychwanegu i'r eitemau sydd eisoes ar y siop wefan ac mae croeso i artistiaid/dylunwyr i gysylltu a nhw i gynnig eu gweithiau.

Y syniad yw bod artistiaid a dylunwyr Cymreig yn rhoddi darn (unrhyw beth mae'n nhw'n ffansi!) fydd yn gwerthu ar-lein. Bydd yr elw wedyn yn mynd i fanc bwyd o ddewis yr artist/ dylunwr.

Enghreifftiau o artistiaid a dylunwyr sydd yn rhoi gwaith yn hael iawn:

Bedwyr Williams, Sean Edwards, Bethan Lloyd Worthington, Iwan Lewis, Rebecca Gould, Sarah Roberts, Alis Knits, Gemwaith Gwennol, Lucy Dickson, Lumin Press, Celf Lois, Ruth Jen... a mwy"



**Goleuadau**
Hoffai Tafarn y Roosters ddiolch o galon i Selwyn ac Eleanor o gwmni D.J. Evans am eu rhodd haelionus ar gyfer rhoi goleuadau i fyny ar y Clwb dros y Gwyliau. Mae y Clwb yn werth ei weld – cofiwch edrych wrth basio ar ôl iddi dywyllu.

**Hugh Jones**
Trist oedd clywed am farwolaeth Hugh O. Jones, Panteg, yn dawel yng Nghartref Hafan y Waun, Waunfawr ar 17 Tachwedd yn 97 oed. Cydymdeimlwn gydag Alan; a Janet, Cyril a Mathew yng Nghomins-coch.

Roedd Hugh yn frodor o Gorris; ar ôl gadael yr ysgol bu'n gweithio mewn gwestai yn Llanegryn am sbel cyn iddo ddod i Fferm Rhydypennau (lle saif Crefftau Pennau bellach) fel gwas fferm. Yn yr ardal, mewn noson ddawns, y cwrddodd â Phyllis o Benrhyn-coch; fe'u priodwyd yn 1948 gan setlo yng nghartref teulu Phyllis, sef Panteg. Cafodd Hugh waith yng Ngogerddan ac yno y bu tan iddo ymddeol ym 1984.

Bu'n warden yn Eglwys Sant Ioan ac roedd yn aelod selog (baswr) o Gôr Penrhyn-coch. Roedd yn hoff iawn o drenau stêm, ond efallai mai fel ffotograffydd ac arlunydd medrus y bydd y gymuned yn ei gofio. Bu'n ffotograffydd ffyddlon i'r *Tincer* o Ddachwedd 1979 am flynyddoedd gan ymweld â ysgolion a digwyddiadau lu yn yr ardal – byddai yn eu datblygu eu hun. Gwelir ffrwyth ei lafur ar





**Brownies Penrhyn-coch**
Llongyfarchiadau mawr i Tirion Clarke ac Abigail Evans, Brownies Penrhyn-coch, am dderbyn eu Bathodyn a Thystysgrif Aur yn dilyn misoedd o waith yn ystod y clo. Mae'r Brownies wedi bod yn cwrdd ar Zoom ac os oes diddordeb gan rywun i ymuno ewch i'r wefan www.girlguiding.org.uk



dudalennau y papur a hefyd mewn orielau ar wefan Trefeurig. https://trefeurig.cymru

Mae ei baentiadau fan hyn o dan Jones, Hugh fel artist:

https://trefeurig.cymru/awduron-ac-artistiaid-j-w/

Mae nifer o'i luniau wedyn o dan Hanes: Penrhyn-coch:

https://trefeurig.cymru/hanes/penrhyn-coch/

a hefyd (cyfres o luniau) Capel Dewi yn dod lawr:
https://trefeurig.cymru/hanes/capel-dewi/

Bydd mwy i ddod ar y wefan eto fel y caiff ei hailadeiladu.

Cynhaliwyd yr angladd preifat ym mynwent Eglwys St. Ioan a derbyniwyd rhoddion er cof am Hugh tuag at Hafan y Waun dan ofal DJ Evans Cyfarwyddwr Angladdau.

**Cymdeithas y Penrhyn**

Cawsom noson ddifyr nos Fercher, 18 Tachwedd, yng nghwmni Rhuanedd Richards, golygydd Radio Cymru a Chymru Fyw. Cwm Cynon yw ardal enedigol Rhuanedd ond mae ganddi wreiddiau dwfn yng Ngheredigion. Pwysleisiodd bod Radio Cymru'n darlledu ar gyfer pawb ac roedd yn ymfalchïo yn y ffaith bod y darlledu hwnnw'n digwydd o nifer o leoliadau.

Bu'n rhaid trawsnewid y ffordd y mae Radio Cymru'n gweithio ar ddechrau'r pandemig er mwyn i'r cyflwynwyr allu darlledu o'u cartrefi a hynny heb amharu ar y gwasanaeth. Mae'r orsaf wedi comisiynu llawer o stwff newydd a cheisio llenwi bylchau yn ystod y misoedd diwethaf, e.e. Eisteddfod T adeg Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Fawr Rithiol ac Eisteddfod Amgen. Roedd brwdfrydedd Rhuanedd am ei gwaith yn heintus a soniodd am y newidiadau sy'n digwydd nawr a'r hyn yr hoffai hi ei weld. Ei chasgliad oedd bod hwn yn gyfnod cyffrous o ran cyfleoedd ond hefyd yn heriol oherwydd y gystadleuaeth.



**Pen blwydd arbennig**

Dymunwn yn dda i Gwyneira Marshall ddathlodd ei phen blwydd yn 90 yn ystod Rhagfyr.

**Graddau Meistr**

Llongyfarchiadau i Delyth James, Dôl Helyg, ar raddio yn MSc. gyda rhagoriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Ac i Wil Galbraith, Gwelfor, ar raddio'n MSc gyda rhagoriaeth mewn peryglon daearegol a'r amgylchedd ym Mhrifysgol Portsmouth.

**Gwasanaethau'r Adfent a'r Nadolig ym Mhlwyf Bro Padarn**

Dyma'r trefniadau ar gyfer y gwasanaethau ar-lein gan ddefnyddio Zoom ym Mro Padarn dros yr Adfent a'r Nadolig.
13 Rhagfyr: 3.00pm Gwasanaeth Prynhawn (Cymraeg)
17 Rhagfyr: 7.00pm Plygain (ar y cyd gyda Chymdeithas y Penrhyn)
20 Rhagfyr: 3.00pm Gwasanaeth Carolau (Cymraeg)
22 Rhagfyr: 4.00pm Llan Llanast (ar y cyd gyda Chapel Horeb; Dwyieithog)
Dydd Nadolig (25 Rhagfyr): Gwasanaeth boreol (Dwyieithog)
27 Rhagfyr: 3.00pm Gwasanaeth Prynhawn (Cymraeg)

Os hoffech chi ymuno â ni yn y gwasanaethau hyn bydd yn rhaid ichi gael cyfeiriad gwe a chyfrinar ac fe allwch gysylltu gyda'r Parchg Lyn Dafis 01970 820162 neu lyndafis@gmail.com i'w derbyn. Os ydych chi'n meddwl dod i Llan Llanast gwnewch hynny erbyn 16 Rhagfyr er mwyn ichi dderbyn gwybodaeth am beth fydd angen ei baratoi mewn digon bryd.

Cynhelir gwasanaethau hefyd yn Eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn dros y cyfnod hwn:
13 Rhagfyr: 10.00am Boreol Weddi
24 Rhagfyr: 11.00pm Cymun Canolnos
27 Rhagfyr: 10.00am Boreol Weddi

**Pwyllgor Apêl Ceredigion 2020 – Trefeurig**

Ar ddiwedd blwyddyn lle fethon ni fwynhau arlwy Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion – a sawl digwyddiad arall oherwydd y pandemig – mae'n anodd meddwl bod yna unrhyw beth sy'n werth ei ddathlu. Er na chafwyd prifwyl yn Nhregaron ym mis Awst 2020 mae mawr obeithio y bydd yr achlysur yn mynd yn ei flaen mis Awst nesaf. Deallaf bod yna benderfyniad ar hynny yn cael ei wneud yn y flwyddyn newydd.

## Parc Chwarae

Gwnaed tipyn o waith yn ddiweddar ar y Parc – gosodwyd gatiau newydd sydd yn cau eu hunain er mwyn diogelwch y plant. Yn y llun gwelir gweithwyr yn eu rhoi yn eu lle; Claire Larke sydd yn yr ail lun, Cadeirydd PATRASA – diolch iddi am ei holl waith. Yn y trydydd llun gwelir Kevin Jenkins fu'n un oedd yn eu gosod yn dangos y giat i Nigel Chapman. Diolch i bawb am eu gwaith caled yn edrych ar ol y Parc; hefyd gyda'rgwaith paratoi ar gyfer y gatiau a'r si-so, yn enwedig Kavin Jenkins a Gerald Makaruk a diolch i Claire Larke am drefnu y cyfan.






Fodd bynnag, wrth edrych ymlaen mae yna sawl rheswm i ddathlu. Rydym yn ymwybodol ein bod mewn sefyllfa unigryw yma yng Ngheredigion. Gyda'r arian wedi ei godi a llawer o'r paratoadau wedi eu gwneud, mae 'na gyfle i ni wirioeddol ystyried beth allai gwaddol Eisteddfod Ceredigion fod i'r ardal. Mae un syniad eisoes ar waith sef y

syniad gwych o fabwysiadu dysgwyr ac mae'r cynllun hwnnw yn weithredol ers cychwyn Medi. Mae'r Pwyllgor Gwaith hefyd wedi bod mewn trafodaeth gyda rhai o gynrychiolwyr Prosiect Fory, cynllun lleol sy'n cael ei arwain gan Radio Beca a Bro360, er mwyn cryfhau'r syniad o Gymreictod o fewn ein cymdogaethau, ac mae dyfodiad yr Eisteddfod yn cynnig cyfle i ni ystyred syniadau posib allai gyfrannu at y nod hwn. Bydd mwy o fanylion yn cael eu rhannu am hynny y flwyddyn nesaf.

Mae yna reswm I ninnau yn ardal Pwyllgor Trefeurig I ddathlu hefyd. Roedd ein cyfraniad ariannol ninnau llawer yn fwy na'r targed a gafodd ei osod I ni. Mae jin 'Trafferth Mewn Tafarn' wedi llwyddo I godi bron I £12,000, a phob un botel bellach wedi cael eu gwerthu. Hoffen ni fel pwyllgor ddiolch o galon I bawb sydd wedi ein cynorthwyo yn y Gwaith o hyrwyddo a gwerthu'r jin ac am eich rhoddion misol hefyd drwy'r cynllun 20/20. Rhaid cofio hefyd am ein te prynhawn bendigedig ar ddydd Gwyl Dewi. Fe fuon ni'n ffodus iawn i gynnal y digwyddiad i hyrwyddo'r



**Priodas**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Llifon a Nia Ellis, Ger-y-cwm, a briodwyd yn Nanteos ar Dachwedd 14.

brifwyl ychydig cyn I'r cyfnod clo gael ei gyflwyno. Byddwn mewn sefyllfa i roi gwybod ein cyfanswm terfynol fel pwyllgor yn y flwyddyn newydd."

Felly, wrth i ni ffarwelio â 2020 siomedig, a rhwystredig, rydyn ni'n dymuno Nadolig Llawen i chi i gyd, ac yn croesi pob dim y cewn ni newyddion da yn y flwyddyn newydd.

**Sara Gibson**
**Cadeirydd Pwyllgor Trefeurig**

**Mastermind**
Welsoch chi y gyfres newydd o Mastermind ar S4C? Yn yr ail raglen yr wythnos ddiwethaf bu Cledan Davies arni yn ateb cwestiynau ar C'mon Midffild. Un sydd yn cymryd diddordeb yn y gyfres yw John Ifor Jones, Maesyfelin – roedd ei fab Gethin – sydd yn gweithio yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, yn y rhaglen gyntaf o'r gyfres ar 2 Rhagfyr a'i bwnc arbenigol oedd mamaliaid. A'r Tincer yn mynd i'r wasg – ac ar ôl i ddwy raglen gael eu darlledu, Gethin oedd ar frig y cystadleuwyr hyd yn hyn. Gwyliwch y gofod!!

**Plygeinie**
Bydd y rhifyn yma o'r Tincer allan cyn i blygain ar-lein Penrhyn-coch ddigwydd. Gweler y dyddiadur
Os bu i chi ei cholli a'ch bod am ddilyn plygain mae Menter Maldwyn wedi trefnu dwy eleni; bydd cantorion lleol yn cymryd rhan yn y rheiny. Darlledir y ddwy ar nosweithiau Sul am 6.00 – 20 Rhagfyr a 3 Ionawr am 6.00 ar dudalennau Facebook a You Tube Mentrau Iaith Cymru a Trac Cymru.



Elen, Ned, Twm, Florence a Miriam - aelodau o Glwb Sul Horeb, sydd yn cwrdd ar Zoom, yn edrych ymlaen at dynnu'r ddolen ddiwethaf yn ystod yr Adfent.

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Tachwedd 19. Oherwydd cyfyngiadau Covid 19 nid oedd yn bosibl i gael y Cyfarfod Blynyddol yn Mis Mai fel yr arfer; gohiriwyd tan mis Tachwedd a chynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol 2020 trwy gyfrwng Zoom.

Mynegodd y Cadeirydd ei bod wedi bod yn flwyddyn anodd ond er gwaethaf y cyfyngiadau roedd y Cyngor wedi cwblhau sawl tasg. Diolchodd i'r Cynghorwyr am eu cefnogaeth au parodrwydd i ddefnyddio technoleg er mwyn cynnal ein cyfarfodydd ers mis Mehefin trwy gyfrwng Zoom.

Diolchodd hefyd i'r Cynghorydd Sir, Rhodri Davies am ei barodrwydd a'i gymorth efo'r tasgau/problemau a ddaeth i sylw'r Cyngor Cymuned.

Diolchodd hefyd I'r clerc a'r cyfiethydd.

Wedi'r Cyfarfod Blynyddol aethpwyd ymlaen i gael cyfarfod mis Tachwedd.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref fel rhai cywir.

Roedd un cais cynllunio wedi dod i sylw y Cyngor - sef Red Kite, Goginan; nid oedd gwrthwynebiad i'r cais.

Nodwyd bod y ffordd gefn i Hen Goginan wedi cael ei hail wynebu a bod angen sylw ar y ffordd o Aber-ffrwd i Gapel Seion; mae sawl twll mawr arni.

Trafodwyd cyllideb y Cyngor Cymuned a chytunwyd I gadw y praesept yr un peth a llynedd. Diwedd Tachwedd derbyniwyd adroddiad a thystysgrif archwiliad allanol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Atgoffwn fod Cyngor Cymuned Melindwr yn gwahodd ceisiadau am grantiau bychain oddi wrth fudiadau lleol i gefnogi prosiect neu weithgaredd. Gofynnir i'r ceisiadau gynnwys y canlynol:

Amlinelliad o'r prosiect / gweithgaredd a'i fudd i'r ardal neu i'r brodorion.

Manylion o gyllid y prosiect / gweithgaredd a pha elfennau y mae y cais yn ei ariannu.

Copi o fantolen ariannol diweddar y mudiad.

Mae angen danfon y ceisiadau i Lynne B Davies (Clerc). cyngormelindwrcouncil@gmail.com ), Glasfryn, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LP. Rhaid derbyn y ceisiadau erbyn Rhagfyr 31 2020 Bwriad y Cyngor yw trafod y ceisiadau yng nghyfarfod Ionawr 2021.

Dymuna'r Cyngor Cymuned Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda I drigolion Melindwr. Cofiwch ddilyn y canllawiau a cadwch yn saff trigolion Melindwr.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau Ionawr 21ain 2021 am 7.30yh ar Zoom

# Drama'r geni Nadolig 1960



Llun o ddrama'r geni Nadolig 1960 – dosbarth y plant bach. Eglwys Sant Ioan, Penrhyn~coch
Tri bugail rhes flaen: David Rees, Peter Morris, Dewi Owen Jones
Rhes gefn: David Binks, Gerwyn Davies, Lloyd Edwards, Elin Lewis, Bethan Thomas, Alan Jones, Mair Eleri Jones, Yvonne Marshall, Eleri Morgan, Selwyn Evans, David Wyn Jones, Gwynfor Jones, Sandra Thomas.
Llun gan Dewi Owen Jones,Llangefni,(mab y Parchg F M Jones) trwy law Richard Huws.

## LLANDRE

**Gerddi Genau'r-glyn; Gardd Gymunedol Llandre**
Ym mis Hydref cytunwyd ar egwyddor gan Gyngor Cymunedol Llandre gynlluniau i ddechrau gardd gymunedol o fewn y pentref. Mae gardd gymunedol yn le i dyfu ffrwythau, llysiau, perlysiau neu flodau, neu wella'r amgylchedd i fywyd gwyllt, mewn llefydd sydd ar gael i'r gymuned gyfan eu defnyddio.

Cynnwys y cynlluniau braslun blannu coed ffrwythau o flaen y cwrt tenis, potiau o berlysiau o flaen y cae chwarae a chynyddu amrywiaeth y blodau gwyllt ar ymylon heolydd yn y pentref, gan newid y gyfundrefn torri porfa.

Bellach mae Phil Thomas a Gemma Bell yn chwilio am wirfoddolwyr i ffurfio pwyllgor i sefydlu'r ardd, a hoffent wahodd unrhyw un â diddordeb i gysylltu â nhw drwy ebost:
gkbllwyn@gmail.com
philnkate@btinternet.com

Unwaith fydd y pwyllgor wedi ei ffurfio byddwn yn trefnu cyfarfod cyhoeddus i wahodd y gymuned gyfan i helpu i ddatblygu cynlluniau ar gyfer yr ardd, felly gwyliwch am gyhoeddiadau cyffrous yn y dyfodol yn *Y Tincer* ac ar y grŵp Gweplyfr Pobl Llandre a Dolybont.

**Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn**
Cynhelir gwasanaethau yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn dros y cyfnod hwn:
13 Rhagfyr: 10.00am Boreol Weddi
24 Rhagfyr: 11.00pm Cymun Canolnos
27 Rhagfyr: 10.00am Boreol Weddi

## Radio Cymru

**Dyma drefn newydd rhaglenni fin nos Radio Cymru**

**Llun**
18.00 Troi'r tir (??)
18.30 Recordiau Rhys Mwyn
21.00 Stiwdio efo Nia Roberts

**Mawrth**
18.00 Gwneud bywyd yn haws Hana Hopwood Thomas
18.30 Hwyrnos Georgia Ruth
21.00 Dei Tomos (Ailddarllediad o nos Sul 17.05)

**Mercher**
18.00 Yfory newydd: gwyddonwyr ifanc Cymru (Ailddarllediad o nos Sul 19.00)
18.30 Lisa Gwilym
21.00 Cofio – John Hardy (Ailddarllediad o brynhawn Sul 14.00)

**Iau**
18.00 Benbaladr Alun Thomas yn siarad efo Cymry tramor ( Darlledir Hawl i holi unwaith y mis)
18.30 Byd Huw Stephens
21.00 Beti a'i phobol (Ailddarllediad o brynhawn Sul 13.00)

**Gwener**
18.00 Jacob a Nest (Jenkins)
20.00 Penwythnos Geth a Ger
22.00 Nos Wener Ffion Emyr



D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman @yahoo.com

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

## MADOG DEWI / CEFN-LLWYD

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Dilwyn Thomas, Brynheulog, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

**Dymuniadau gorau**

Dymuniadau gorau i Elin Wallace, Troed y Rhiw, ar ei phenodiad yn athrawes Ffrangeg yn Ysgol Eifionydd, Porthmadog.

Hefyd i'w brawd Robert Wallace sydd yn astudio Daeareg ym Mhrifysgol Lerpwl.

---

# Cynnyrch cystadleuaeth

**Adref: casgliad o straeon byrion**
**Rhagair gan Manon Steffan Ros. Cara, 2020.**
**£8**




Cyfrol sy'n cynnwys **30 o straeon byrion gan 28 o ferched** a gafodd eu sgwennu ar gyfer cystadleuaeth stori fer *Cara*, ac yn ôl y beirniad, Manon Steffan Ros:

"Pleser llwyr oedd cael pori drwy ymgeisiadau cystadleuaeth ysgrifennu creadigol *Cara*. Wel, dwi'n deud pori – dyna oedd y bwriad. Ond yn syth bìn, cydiodd y straeon yma yn fy meddwl, a chefais fy hudo. Mae'r safon mor, mor uchel ac fe alla i ddweud yn gwbl onest y byddwn i wedi gallu gwobrwyo pob un o'r ymgeisiadau yma. Diolch o galon i bawb am rannu eu gwaith, a plis plis plis, cariwch ymlaen i sgwennu."

Mae'r gyfrol yn cynnwys amrywiaeth o awduron profiadol a newydd yn sgwennu ar wahanol themâu yn ymwneud ag Adref. Enillydd y gystadleuaeth oedd Marged Elen Wiliam o Benrhosgarnedd, yn ail roedd Sioned Erin Hughes o Foduan, Pen Llŷn, ac yn drydydd roedd Lowri Haf Cooke o Gaerdydd. Mae'r tair stori i'w gweld ar wefan Cara: cara.cymru.

Yr awduron eraill yw Heiddwen Tomos, Casia Wiliam, Dana Edwards, Mari George, Siân Teifi, Rebecca Roberts, Eurgain Haf, Gwenfair Griffith, Miriam Elin Jones, Rhian Tomos, Fflur Evans, Iona Evans, Rhiannon Lloyd Williams, Martha Ifan, Gwen Lasarus, Heledd Ann Roberts, Gaenor Mai Jones, Maire McGoldrick, Heather Williams, Myfanwy Fenwick, Delyth Wyn Jones, Swyn Melangell Hughes, Mared Fflur Jones, Meleri Fflur Williams a Gaenor Watkins.

**Gallwch ragarchebu copïau drwy gysylltu â Meinir ac Efa ar Twitter, Facebook neu Instagram, neu e-bostio cylchgrawncara@gmail.com.** Byddan nhw ar werth yn eich siop lyfrau leol ddiwedd Tachwedd.

# Cwis Nadolig Y Tincer

### Cyfle eleni eto i gael ychydig o hwyl ac ennill gwobr o £10!

Ychydig o fisoedd yn ôl ar ryw brynhawngwaith têg o ha' (doedd hi ddim yn felyn tesog, ond yn ffodus roedd ganddo ymbarel) syrthiodd Y Tincer bach i gysgu wrth fynd am dro ger Bontgoch ac yn union fel y bardd cwsg, mi gafodd 'weledigaethau'. Tybed allwch chi gadw'n ddigon effro i ateb y cwestiynau?

Anfonwch eich atebion i gyrraedd cyn hanner dydd, dydd Mercher, Ionawr 5 2021 at: Gareth William Jones, Hafle, Penrhiw, Bow Street, Ceredigion SY24 5BA neu os dymunwch anfonwch eich deg ateb at **gwjones99@aol.com**

Os bydd mwy nag un ateb cywir yna, fel arfer, rhoir yr enwau yn het y golygydd a'r enw cyntaf i'w dynnu allan fydd yn ennill y £10. Pob lwc!

1. Yn ei weledigaeth gyntaf gwelodd Y Tincer ei hunan yn Y Porth yn 1925 yn gwylio William yn rhoi diod mewn potel. Pa enw roddodd William ar ei ddiod?
2. Yn ei ail weledigaeth gwelodd Y Tincer ei hunan yn edrych ar John Eifion yn ysgwyd ei freichiau o flaen criw o hen Gymry. O flaen pwy oedd John Eifion yn ysgwyd ei freichiau?
3. Yn ei drydedd gweledigaeth gwelodd Y Tincer ei hunan yng Nghaernarfon yn patro â dyn o'r dref ia. Beth oedd pobl yn galw'r dyn o'r dref?
4. Yn ei bedwaredd gweledigaeth gwelodd Y Tincer ei hunan yn Llanrwst ar bnawn llun y llynedd yn gwylio Guto yn gwenu fel giât. Beth oedd ar ben Guto?
5. Yn ei bumed gweledigaeth gwelodd Y Tincer ei hunan mewn siop yn 1960 yn gwario darn o arian gwerth deuswllt a chwech. Beth oedd enw'r darn arian?
6. Yn ei chweched gweledigaeth gwelodd Y Tincer ei hunan yng Nghaerdydd yn 2019 yn gwylio Alun yn codi plat arian uwch ei ben. Beth oedd tîm Alun newydd ei ennill?
7. Yn ei seithfed gweledigaeth gwelodd Y Tincer ei hunan yng Nghaliffornia yn 1937 yn gwylio Walter yn tynnu llun o gymeriad bach. Pa gymeriad oedd Walter yn tynnu llun ohono?
8. Yn ei wythfed gweledigaeth gwelodd Y Tincer ei hunan yn Louisiana eleni yn cysgodi am ei fywyd oddi wrth Laura. Beth neu pwy oedd Laura?
9. Yn ei nawfed gweledigaeth gwelodd Y Tincer ei hunan yn gwylio Waldo'n cyfansoddi cerdd, ond er siom iddo, dim ond am 'un funud fach' wnaeth y weledigaeth bara. Beth oedd teitl y gerdd roedd Waldo yn ei ysgrifennu?
10. Yn y weledigaeth olaf gwelodd Y Tincer ei hunan yn ôl ar dir yr hen Sir Aberteifi yn edrych ar gi bach oedd wedi ymddangos ar Netflix. Pa fath o gi welodd Y Tincer?

# Colofn Enwau Lleoedd


Yn ei adroddiad 'An Account of the Lead & Silver Mines in … Cwmmwd y Perveth' yn 1744 (t.8), cyfeiria Lewis Morris at nifer o dyddynnod y cwmwd fel hyn:

'In the marriage settlement of Meredith Lloyd of Cwmbwa in the year 1652 … I find the following lands and tenements mention'd: Cwm y Bwa, Tir y Ty Coch, alias Tythin y Penrhyn Coch, Melyn Cwm y Bwa, Tythin Llwyn y Gronw, Tythin y Braich Garrw, Tythin Pen y Gaer Ycha, Tythin Pen y Gaer Yssa, Tythin y Darren Ycha, Tythin y Gelly otherwise Y Darren Vach.'

Bydd amryw o'r enwau yn gyfarwydd i chi, ond yma fe ganolbwyntiwn ar yr enw *Tythin y Braich Garrw*.

Er nad yw'n ymddangos i'r ddogfen y sonia Lewis Morris amdani oroesi, ategir yr wybodaeth yn setliad priodas aelod arall o deulu Cwmbwa yn 1724 (Papurau Stad Cwmcynfelyn, LlGC), lle enwir yr un lleoedd, yn cynnwys 'a m[essuage] called *Tythin y Braich Garw*'.

Ar fap Lewis Morris, 'A plan of the mannor of Perveth' [1744], gosodir *Braich garw* (y gellir ei uniaethu â *Tythin y Braich Garw* yn ôl pob golwg) yn fras rhwng Ty'ngelli a Llechwedd-hen, islaw pentref Pen-bont Rhydybeddau. Daw'r union leoliad yn gliriach gyda chymorth map llawysgrif a luniwyd yn 1788, er nad oes unrhyw olion i'w gweld ar y safle heddiw.




**'A survey of Cwmbw[a] and Daran Vawr farms and such farms as adjoin … in the parish of Llanbadarn', 1788**

**Trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru http://hdl.handle.net/10107/1445601**

Dengys y map fod y tyddyn yn cynnwys tri llain o dir (D1, D2, a D3) ynghyd â *Cau Brach Garw* (D4), a bod yr adeiladau wedi eu lleoli yn dynn wrth y clawdd prin led cae i'r gorllewin o hen dŷ Ty'ngelli.

Ystyr *braich* yw 'esgair neu gefnen o dir', ac mae'n enghraifft o un o aelodau'r corff yn cael ei ddefnyddio'n ffigurol am nodwedd dirweddol. Yma disgrifir natur y *fraich* â'r ansoddair *garw* 'heb fod yn llyfn, anwastad'. Nid oes amheuaeth nad cyfeiriad sydd yma at y gefnen hir greigiog sy'n ymestyn i fyny'r llethr y tu cefn i'r safle.

Digwydd yr un enw am dyddyn ar gyrion Tal-y-bont, yng Nghwm Eleri. Er mai gair benywaidd yw *braich* heddiw gan amlaf, sylwer mai gwrywaidd ydyw yn yr enwau hyn (am nad yw'r ansoddair *garw* yn treiglo ar ei ôl). Mae hynny mewn cyferbyniad ag enwau lleoedd megis *Braich Lwyd* yn Aberffro, Ynys Môn, a *Braich Goch*, Corris, Meirionnydd, lle mae'n enw benywaidd.

**Angharad Fychan**

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru



**Safle Braichgarw, gyda'r gefnen yn ymestyn i fyny'r llethr ar y dde**

# GOGINAN

Clywyd cais gan Aled Bebb ar y rhaglen 'Galwad cynnar' ar Radio Cymru for e Sadwrn 21 Tachwedd. Roedd wedi gyrru llun aderyn i mewn gan holi ai Cyffylog (woodcock) oedd o.

Ateb Duncan Brown oedd nad cyffylog oedd o ond petrisen goesgoch.

Arferai y betrisen lwyd fod



mor gyffredin ar un adeg ond erbyn hyn roedd wedi mynd yn brin. Roedd y betrisen goesgoch yn aderyn gai eu magu a'u rhyddhau ar gyfer saethwyr a thrigolion stadau. Roedd y ffaith i Aled awgrymu fod yr aderyn yn llywaeth yn rhyw gadarnhau hyn.

Tybed faint ohonoch sydd wedi gweld y rhain yn yr ardal?

Efallai y byddwch yn gyfarwydd a'r dywediad "Nid wrth ei big y mae prynu cyffylog" Byddai cyffylogod yn cael eu gwerthi mewn sachgyda'u pig hir iweld y tu allan i'r sach. Y cyngor oedd peidio pry nu un yn ol golwg ei big – mae'n debyg mai y dywediad Saesneg fyddai yn cyfateb fyddai Never judge a book by its cover",

**Newyddion cyffrous ym Mwlch Nant yr Arian.**

Gan ddechrau ar Ragfyr 1af bydd rhan o'n llwybrau, Y Derwydd Meddw, ar gau wrth i ni wneud gwaith cynnal a chadw hanfodol. Dilynwch y gwyriadau ac ail-ymunwch â'r llwybrau at Fry Fel Barcud.

Mae'n hanfodol eich bod yn sylwi ar ac yn dilyn unrhyw arwyddion a chyngor a gewch gan ein staff. Bydd traffig ychwanegol o gwmpas y safle ac ar rannau eraill o'r llwybrau gan gynnwys Fry Fel Barcud.

Peidiwch â reidio ar unrhyw lwybr sydd newydd eu hadeiladu nes iddi gael ei hagor yn swyddogol: gall reidio ar y llwybrau cyn hyn achosi difrod i'r wyneb cyn iddo setlo, a byd hynny'n golygu bod yn rhaid i ni dreulio mwy o amser a gwario mwy o arian i fynd dros y gwaith, a bydd hyn yn oedi'r agoriad.

Diolch i chi am eich ystyriaeth a'ch amynedd. Bydd yn werth chweil.

# BOW STREET

**Croeso**
Croeso cynnes i Paul a Jean Burns Davies sydd newydd symud i rif 38 Maes Ceiro. Maent yn dod yma o Lanbadarn Fawr ac yn adnabod yr ardal yn reit dda yn sgîl teithiau cerdded Rees Thomas.

**Noddfa**
Fel yn achos llawer eglwys arall, a llawer o fudiadau ac unigolion o ran hynny, y mae Zoom wedi dod yn rhan anatod o iaith yr aelodau erbyn hyn a mawr yw ein diolch i Gareth William Jones am roi`r mecanwaith yn ei le ar gyfer 10.30 bob bore Sul. Diolch hefyd i`r aelodau hynny sydd wedi arwain y Gyfeillach dros y misoedd diwethaf gan roi amrywiaeth o fyfyrdodau a chyflwyniadau diddorol a bendithiol i ni. Fel popeth arall bu Sul y Cofio yn wahanol iawn eleni gan nad oedd modd cynnal y gwasanaeth arferol yn y Neuadd ac yma eto daeth Zoom i`r adwy i alluogi`r Parchg Richard Lewis i arwain cyfarfod byr trwy`r cyfrwng hwnnw.



Coeden Bow Street a seren yn ffenest Capel y Garn.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Nia Gore am gasglu cyfanswm o £2,650 wrth redeg 5k.Mae yn ddiolchgar i'w ffrindiau ac i bawb roddodd gymorth iddi eto gyda'r sialens elusennol yma. Daeth rhai o'r beiciau gwaed i gynorthwyo hefyd

**Crefftau Pennau**
Mae Crefftau Pennau ar agor fel arfer o hyn tan y Nadolig, ond os oes unrhyw un yn teimlo'n ansicr o ran ymweld â'r siop, mae'r staff yn fodlon trefnu'r siopa dros y ffôn a dod â nwyddau i'r tŷ, neu mae croeso i bobl ddod i'w casglu, heb orfod mynd i mewn i'r siop. Hefyd, gall pobl ymweld y tu allan i'r oriau agor arferol, trwy drefnu ymlaen llaw. Mae mwy o fanylion ar eu tudalen Facebook, ac mae croeso i chi godi'r ffôn: 01970 820050.

**Merched y Wawr**
Wrth i 2020 ddirwyn tua`i therfyn fe hoffai Mair Lewis, Llywydd Cangen Rhydypennau, fanteisio ar gyfle i ddiolch i holl aelodau`r gangen am ddal ati i fod yn aelodau er nad yw cyfarfod yn gorfforol wedi bod yn bosibl. Mae`n dda deall bod nifer o`r aelodau wedi cael cryn hwyl ar Cwis Can Cwestiwn a gynhaliwyd yn ddiweddar er bod yna rai yn siomedig na chafwyd pob ateb yn gywir! Wrth edrych ymlaen i 2021 hyderwn y daw haul ar fryn i ni ac i bawb arall yn ystod y flwyddyn.

**Capel y Garn**
Dros yr wythnosau diwethaf mae oedfa dan ofal y Gweinidog wedi ei chynnal bob bore Sul am hanner awr wedi naw, gyda rhai mynychwyr yn ymddangos ar sgrîn ac eraill yn gwrando ar y ffôn. Yn dilyn hynny, am hanner awr wedi deg, mae'r Ysgol Sul yn cyfarfod. Fore Sul, Tachwedd 29ain bu'r Parch John Tudno Williams yn arwain ein myfyrdodau. Mae croeso i unrhyw un, o bell ac agos, ymuno â'r Oedfaon hyn, naill ai ar zoom neu ffôn.

Cafwyd cyfarfod bywiog o'r Gymdeithas Lenyddol ar zoom ar Dachwedd 20fed, pan oedd Ann ac Alan Wynne Jones wedi trefnu cwis ar ein cyfer. Roedd nifer dda ohonom wrth ein sgriniau gyda'n pensilau a'n papurau'n barod pan agorwyd y cyfarfod gan y cadeirydd, Yr Athro Gruffydd Aled Williams. Cwestiynau ar gerddoriaeth oedd gan Alan i ni; am faterion mwy cyffredinol roedd cwestiynau Ann. Y Parchedig Watcyn a Mrs Lowri James ddaeth i'r brig; llongyfarchiadau mawr iddyn nhw. Diolch o galon hefyd i'r cwisfeistri am gwestiynau heriol a difyr dros ben.

Mae'r trefniadau mewn llaw ar gyfer parhau'r Oedfaon zoom/ffôn am y misoedd nesaf, yn cynnwys dros y Nadolig, yn y gobaith y daw hi'n ddiogel i gwrdd wyneb yn wyneb erbyn y Pasg. Yn y cyfamser mae'r Gweinidog a'r swyddogion am bwysleisio bod croeso i unrhyw un ymuno â ni. Gellir cysylltu drwy'r e-bost canlynol am ragor o wybodaeth: watcyn.james@ebcpcw.cymru



Y Parchg Rhun ap Robert, Castell-nedd ar Dechrau canu, dechrau canmol.

SIOP SGLODION
BOW STREET CHIPPY
4.30pm – 8.30pm
Mawrth – Sadwrn
Mae modd archebu o flaen llaw dros y ffôn
01970 820567

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â TEGWYN LEWIS
01970 880627

# Arts Drop Natur yn curo ar ddrysau gyda'i ymateb creadigol i Covid-19

Yn ystod mis Tachwedd bydd cannoedd o blant a phobl ifanc bregus yng Ngheredigion a Phowys yn derbyn pecynnau gweithgaredd fel rhan o brosiect i gefnogi iechyd meddwl a lles tra dan gyfyngiadau Covid-19.

Mae Arts Drop Natur - y fenter gyntaf o'i math - yn dosbarthu bagiau o ddeunyddiau creadigol i helpu teuluoedd i fwynhau gweithgareddau hwyliog gartref.

Yn seiliedig ar y rhaglen Arts Drop wreiddiol a gefnogodd filoedd o deuluoedd yn Calderdale, Gorllewin Swydd Efrog yn ystod y cyfnod clo cyntaf, Arts Drop Natur yw'r cyntaf i gysylltu creadigrwydd â natur. Yn y pendraw, bydd y cynllun wedi trosglwyddo 600 o fagiau i weithwyr allweddol eu dosbarthu i blant a phobl ifanc sydd wedi eu hynysu ac sy'n cael eu heffeithio'n andwyol gan dlodi.

Dywedodd Clarissa Richards, Arbenigydd Addysg ar gyfer Coetir Anian, prosiect addysg ac adfer cynefinoedd: "Cefais fy nghyfareddu gan Arts Drop ac roeddem yn teimlo y gallai weithio'n dda iawn i gefnogi teuluoedd yn ein hardal ni. Ar y pryd roeddem yn teimlo'n rwystredig na allem gwrdd a chefnogi'r plant a phobl ifanc trwy redeg ein rhaglenni addysg a lles ar ein tir ger Machynlleth. Felly, roedd gallu cynnig y gweithgareddau yma yn hynod bwysig i ni."



Nia Huw (chwith) a Clarissa Richards gyda bagiau Arts Drop Natur wedi pacio i'w ceir yn barod i'w dosbarthu i blant a phobl ifanc bregus.



Nia Huw yn dosbarthu rhai o'r bagiau Arts

Mae'r bagiau, sydd wedi eu creu ar gyfer tri grŵp oedran - 0 i 5, 6 i 11 a 12 i 18, bellach wedi eu pacio gyda llond trol o ddeunyddiau fel llyfrau braslunio, paent, papur lliw, play-doh, glud, chwyddwydr a siswrn. Ond efallai taw elfen bwysica'r bagiau yw'r set bwrpasol o gardiau post sy'n cyflwyno 20 her syml, hwyliog gan gynnwys gwneud draenog neu goron natur, gwehyddu neu fynd am daith troednoeth.

Dyluniwyd y pecynnau a'r gweithgareddau o dan arweiniad Elaine Burke, ymgynghorydd celfyddydau ac iechyd sy'n arwain Arts Drop a hithau sbardunodd y prosiect ar ôl llwyddiant y peilot yn Calderdale.

Yn ôl Elaine: "Cawsom ymateb gwych i'r Arts Drop cyntaf yn Calderdale a phan glywsom fod gan Coetir Anian ddiddordeb yn y cynllun, achubom ar y cyfle i ychwanegu dimensiwn newydd sbon trwy greu Arts Drop Natur.

"Mae yna gamdybiaeth bod bywydau pobl yn ddelfrydol oherwydd eu bod wedi'u hamgylchynu gan dirwedd hardd ond rydyn ni'n gwybod bod tlodi gwledig ar gynnydd a bod cymunedau gwledig yn profi pob math o anawsterau iechyd meddwl.

"Rydyn ni hefyd yn gwybod bod manteision enfawr i fod y tu allan ym myd natur a phan fyddwch chi'n cyfuno natur a chreadigrwydd rydych chi'n rhoi hwb i effeithiau'r ddau. Mae cael plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel hyn yn eu cysylltu â'u lle, yn eu harwain i'r awyr iach ac yn datblygu eu creadigrwydd."

Cefnogir Arts Drop Natur gan Gronfa Gwydnwch Coronafirws Cymru, sy'n gweithredu o dan adain Sefydliad Cymunedol Cymru, a Chronfa Gymorth Covid-19 Moondance. Mae YPO Ltd, sefydliad o Wakefield sy'n cyflenwi cynhyrchion a gwasanaethau ledled y DU i gwsmeriaid gan gynnwys ysgolion a chartrefi gofal, wedi parhau â'i gefnogaeth i Dîm Arts Drop. Unwaith eto, rhoddodd Chris Mould, yr awdur a darlunydd o Halifax, ei wasanaethau yn rhad ac am ddim i ail-ddylunio logo arbennig Arts Drop Natur sy'n addurno'r bagiau gweithgaredd.

Eisioes dechreuodd Clarissa a'i chydweithiwr yng Nghoetir Anian, Nia Huw, ddosbarthu'r pecynnau i ysgolion, Barnardo's Cymru, canolfan ar gyfer teuluoedd ffoaduriaid o Syria a'r gwasanaethau cymdeithasol ac mae'r ymatebion cychwynnol wedi bod yn hynod bositf.

Meddai Clarissa, "Roedd paratoi'r bagiau yn dasg a hanner ond ein gobaith yw y byddant yn helpu i wella lles meddyliol plant a'u teuluoedd yn ystod y pandemig a thu hwnt, trwy eu cysylltu â natur.

"Yn aml, mae'n her dod o hyd i swyddi sy'n talu'n dda yn yr ardal. Mae lefelau tlodi yn uchel ac mae llawer o bobl sy'n gweithio yn gwneud gwaith shifft, sy'n anodd pan fydd gennych deulu. Yn aml, nid oes gan rieni yr amser yr hoffent i dreulio gyda'u plant yn yr awyr agored.

"Rhan o fwriad y pecynnau yw cynnig syniadau a hyder iddynt am sut i ddefnyddio deunyddiau naturiol a phethau y gallant eu gwneud gyda phlant yn yr awyr agored.

Gyda'r bagiau anfonwn neges at blant bregus eu bod yn bwysig ac nad ydyn nhw wedi cael eu hanghofio."

I ddarganfod mwy am Arts Drop ewch i https://artsdrop.co.uk/

I ddarganfod mwy am Goetir Anian ewch i https://www.coetiranian.org/

CIGYDD BOW STREET
01970 828447
Deli
BOW STREET BUTCHERS SHOP
Cigydd a delicatessen o safon arbennig
01970 828447 - Pendre, Bow Street, SY24 5BQ

# Bro Fy Mebyd

**Ganwyd William Elfed Davies ym mhentref bach Salem ym mis Medi 1919, un o saith o blant i Marged Ann a John David Davies. Yr unig fachgen ymysg teulu o chwe chwaer. Ar ôl byw a chodi teulu ym Mhenrhyn-coch roedd wedi gorfod gadael yr ardal er mwyn sicrhau gwaith a chefnogi ei deulu, ond roedd ei galon yn ôl yn ardal ei blentyndod. Cofnododd ei atgofion yn y llyfr *Salem Soldier* ond ysgrifennodd hefyd am ei hiraeth dros ei bentref. Bu farw yn 2002 ac islaw dyma gofnod unigol o'i gariad at ei filltir sgwâr.**



Elfed ar y chwith gyda'i gyfaill Ifor James yn Salem tua 1929.

"Mae bro fy mebyd yn mynd am gylch reit eang, sef rhan o Benrhyn-coch, fyny i Benrhiw, Llwynprysg, Bancydarren, Cwmerfyn, Cwmsymlog a Threfeurig.

Y pentref ges fy magu yw lle or enw Salem Coedgruffydd, rhyw led cae go lew o Brogynin cartref Dafydd ap Gwilym. Yn y pentref mae capel reit fawr, siop, a dwy ffynnon sydd byth yn sychi. Mae y lle yma yn oer ofnadwy yn y gaeaf ond yn yr haf does dim lle pertach i gael, a'r gog yn canu bob dydd a thrwy y dydd am ryw ddau fis pryd hyny. Rwyf yr hynaf o saith o blant, chwe merch ac un bachgen, ond fe gollais un chwaer pan oedd hi yn ugain oed. Roedd y TB yn ddrwg iawn yn Sir Aberteifi yn y tridegau. Dyw hi ddim yn fantais bob amser i fod yn fachgen gan fod tipyn o gyfrifoldeb i ddangos esiampl.

Gwaith i ddynion y pentre pryd hynny oedd gwaith mwyn fel Bwlchglas, Camddŵr a llefydd fel yna. Cerdded nôl a mlaen, a gweithio mewn lle afiach iawn ac am arian bach. Dŵr yn dod lawr ar eu pen a gorfod bod yn y lle gwlyb yna am oriau. Roeddynt yn gwethio shifts, un shift yn dechrau am ddau or gloch yn y prynhawn a dod allan tua un ar ddeg y nos, a cherdded adre dros y boncydd. Roedd hi yn rhewi yn galed ar y top yn y gaeaf ac erbyn cyrraedd Salem roedd y dillad wedi rhewi amdanynt, ac angen iddynt orfod sefyll o flaen tân mawr i ddadleth a dod allan ohonynt. Pe byddech yn mynd i'r mynwentydd gallech weld fod yna lawer yn eu beddau cyn eu bod yn ddeugain oed, pa ryfedd?

Fe gaeodd y gweithiau mwyn ac aeth llawer o'r dynion i weithio i'r De yn y pyllau glo. Clywais nhw yn dweud mai un o'r pethau rhyfedd oedd cael bath mewn twba o flaen y tân, a dynes drws nesaf yn dod i fewn i fenthyg tipyn o siwgwr neu flawd. Daethant yn gyfarwydd â hynny am fod y gyflog yn reit dda ond roeddent yn gorfod gadael cartref a theuluoedd a dim ond dod adref hyd at wythnos y Nadolig, wythnos Pasg a phythefnos ym mis Awst. Dyna i gyd oeddent adre drwy'r flwyddyn ar wahân pan fo streic. Doedd dim rhyfedd fod llawer ohonom ni blant yr ardal yn cael ein pen blwydd ar yr un pryd. Roedd dod adre o'r South yn dipyn o broblem, dim bysis na cheir dim ond dibynnu ar y trên. Newid yng Nghaerfyrddin a siwrnau araf oedd hi ar y trên o'r De. Roedd llawer ohonynt wedi bod yn gweithio yn y pwll drwy y nos, yna sefyll ar eu traed yn y coridor wedyn falle, hyd nes cyrraedd Aberystwyth. Yna cael trên o Aberystwyth i Bow Street neu Landre. Cerdded wedyn, rhai yn mynd i Penrhyn a Threfeurig neu Dal-y-bont a llefydd arall.

Nid oedd amcan pryd oeddent i gyrraedd , a ninau yn dwr o blant yn disgwyl ac edrych ar y cloc, a rhoi tegell ar y tân. O'r diwedd yn cyrraedd, yng ngwyliau'r Pasg neu mis Awst, a rhai o'r plant ieuengaf ddim yn adnabod eu tadau. Y mamau a babis yn y siôl yn mynd i lawr i gwrdd â nhw. Nid oeddynt byth yn cario case dim ond basged wellt a strap am honno i'w rhoi ar eu cefnau. Hen dro diflas oedd eu gweld yn mynd yn ôl wedyn ar ôl bod adre.Yna. llythyr a chyflog yn dod bob bore Llun. Roedd yn ddrwg pan ddoi streic, roedd yn braf cael y tadau adre wrth gwrs, ond doedd dim dimau yn dod i fewn. Dim dôl na dim arall.

Rwy'n cofio nhad a llawer tad arall adre am bedwar mis efo streic, y mamau yn dod at ei gilydd a llefain ei fod yn galed ond nid wyf yn cofio i ni erioed orfod mynd i'r ysgol heb frecwast na mynd yn droednoeth. Roeddwn yn rhy ifanc y pryd hyny i sylweddoli ond erbyn hyn a chofio nôl, credaf nad oedd oes y gwyrthiau wedi gorffen

Roeddem yn cael hau rhyw ddwy rês o datw yn y cae efo'r ffarmwr yn fferm Coedgruffydd. Nid oedd tâl am gael hau y tatw ond disgwyl i'r menywod roi help efo'r cynhaeaf ac yn amser y gwyliau, finnau fel llawer eraill yn gofalu am y plant yn y cae. Digon o le i chwarae yn yr haf a digon o flodau gwyllt yn tyfu. Chwarae priodas fach yn amal a hel mwyar duon neu llys bach ar hyd y banciau, bywyd yn ddifyr iawn. Digon o fwyd ac amal gwningen ar gael yn yr adeg hynny, gardd dda yn llawn llysiau, a lladd mochyn bob hydref. Rwyn cofio mynd i hela cerrig, tair ceiniog oeddem yn gael a te yn y cae.

Cofiaf hefyd Edward Hughes, yn dod a menyn o Llawrcwm Fawr i siop Salem. Cerdded wrth gwrs, ar bwys ei ffôn am ei fod yn gloff iawn. A ninnau yn cael rhybudd i ddod adre os gwele ni fe yn dod i'r siop, er mwyn sicrhau mynd draw i brynu y menyn am fod menyn Llawrcwm yn neis iawn. Dwn i ddim pam na allai ef ddod â'r menyn at y tai, ond fel yna oedd y drefn wastad. Roedd yn dod a dau gi defaid efo ac ar ôl gwerthu y menyn roedd yn dod draw i dŷ Tom ac Ann Edwards drws nesaf i gael te. Roeddynt yn ffrindiau mawr ond ni châi y cŵn fynd i fewn i'r tŷ am fod Ann yn particular iawn am y tŷ. Y cŵn wrth y drws ar gau a ninnau y plant yn mynd atynt a dechrau canu iddynt, a'r hen gŵn yn canu efo ni. Edwards yn y tŷ yn clywed y concert ac yn dweud "Duw, Duw Ann os na cha i fynd i'r nefoedd mae y cŵn yn siwr o gael mynd ar ôl yr holl ganu yma."

Yn Nhrefeurig oedd ein ysgol dyddiol. Nid oedd yn ffordd bell o gartre, lan tipyn o riw i Benrhiw a lawr y banc i ysgol Trefeurig. Roeddem ni a thwr o blant o Lwynprysg a Penrhiw yn cwrdd ein gilydd yn gyntaf cyn disgyn i'r ysgol. Roedd y bryn yn noeth ac yn arw iawn pan fyddai'n bwrw glaw a'r gwynt yn chwythu. Gallwn weld plant Bancydarren yn dod i lawr yr ochr arall. Roedd tua chant yn yr ysgol pryd hynny gan fod teuluoedd mawr yn yr ardal. Cawsom athrawon da iawn a daeth Dan Jones yn ysgolfeistr, un o Bronnant oedd ef, ond dim ond chwe mis fuais efo fe . Wnaeth ef lawer o les i'r ardal a daeth a thipyn o Gymraeg .

Roeddem yn bwrw llawer o'm hamser allan yn yr haf, hela coed tân, torri rhedyn i roi dan y mochyn, hela cnau a phethau felly. Roedd bron pawb yn cadw mochyn yn y pentre a lladdwyd


hwnw tua Calangaeaf. Ninnau y plant yn llefain am fod y mochyn wedi ei ladd. Rwyn meddwl yn amal fe hoffwn gael tamaid o'r bacwn oeddem yn gael y pryd hynny.

Roeddwn yn gyson iawn yn y capel a chawsom Ysgol Sul dda iawn. Roedd pregeth yn y bore, wedyn roedd y pregethwr yn mynd fyny i Gwmerfyn i wasanaeth y prynhawn a cherdded yr holl ffordd. Wedyn roedd ysgol Sul yn y prynhawn a chwrdd gweddi gyda'r nos a digon o rai yn mynd i gynnal y cwrdd. Rhyw unwaith y mis roeddwn yn cael cwrdd adrodd a chanu. Dysgu darnau adrodd, deuawdau a phedwarawd a chael hwyl iawn. Pan fydde pregeth yn y prynhawn roedd y mamau yn mynd a babis i'r capel mewn siôl ac os bydde'r babi yn dechreu llefain, yna mynd allan I'r porch a hela ef i gysgu a yna yn ôl i'r capel. Roedd pregethu hir i gael y pryd hynny.

Roedd brêc William Magor yn mynd i Aberystwyth bob dydd Llun. Dyna chi beth oedd turn out. Roedd y brêc fel hanner casgen yn cael ei thynnu gan un ceffyl a phawb ond yr hen yn gorfod mynd lawr i gerdded y rhiwiau hyd yn oed gwlaw neu chwythu. Roedd William Magor yn byw ym Mhenyberth, ger Penrhyn-coch a dim ond ei frêc oedd yn mynd i Salem er bod chwaneg o frecs yn yr ardal. Fe gerddais yn ôl o Aberystwyth lawer. Roedd sôn am fwbachod ar y ffordd a bod Ladi Wen wrth ymyl Gogerddan ond welais i ddim. Dim ond clywed ambell gwdihŵ

yn y coed ac ambell lwynog yn galw ar ei gilydd. Y peth mwyaf oeraidd oedd clywed dafad yn peswch yn y clawdd.

Wel, dyna yn fras ac anniben hanes bro fy mebyd i, ac er fy mod wedi dod oddi yna rwyn hoff i fynd yn ôl yna, yn enwedig yn yr haf, neu yn y gaeaf. Fyny i Benrhiw a chael cip ar yr hen ysgol yn Nhrefeurig ac yna lawr drwy Salem, ond pobol ddierth sydd yn awr mewn llawer lle. Fedrai ddim cnocio drws a gweud "sut ma hi?". Fel yna mae hi, mae'r byd ar oes wedi altro."



**(Un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th)** **Atebion y mis nesaf**

**Ar Draws**

1. Awdur (5)
4. Pelydrau'r haul (7)
9. "Heb -- fai, heb -- eni" (4)
10. Aderyn ag iddo blu symudliw (4)
11. Trydydd person unigol gwrywaidd (2)
13. Rhaniad yn llai (7)
15. Gwneud rhywbeth ar amgylchiad arbennig (5)
17. Mynd at y ferch (3)
18. Prin, braidd (5)
20. O achos, oblegid (2)
22. Y mwyaf agos (5)
25. Gyrru'n ôl â'r sawdl (5)
27. Bore da! Noswaith --! (2)
28. Cader Idris (5)
30. "Nid --- ei big mae adnabod cyffylog" (3)
32. Anesmwyth, pryderus (7)
33. "Prynu'n bywyd, talu'n --- -- A'n glanhau a'i waed ei hun" (5)
35. Ateb cadarnhaol (2)
36. Mae un o'r rhain yng Nghaerdydd yn foddhaol (3)
37. -- mwyn (2)
38. Drwgdybio (4)
40. Aderyn, ffowlyn (3)
42. Efallai iddo ddod yn gyntaf! (2)
44. O'r un sŵn (6)
45. Sicr, anochel (7)
49. "Heb -- nac onibai (2)
50. "Drain ac -----, mall a medd Mieri lle bu mawredd" (5)
52. Budd, ennill (3)
53. Nerth, egni (4)
55. "Gwell clwt -- thwll" (2)
56. "Deuwch ataf i'r ----, Sefwch gyd mi yn y bwlch" (4)
57. Y ---- neu'r llall (4)
58. Haeddu, ----- cyflog
62. "--- chynnig i Gymro" (3)
63. Bord i werthu nwyddau (7)
64. Yn wir, ar fy -- (2)

**I Lawr**

1. Un sy'n byw mewn cwfaint (5)
2. Cwrdd cystadleuol (9)
3. Trefniant i gyfarfod, cadw --- (3)
4. Un sy'n astudio stori'r gorffennol (7)
5. Ei lyfr, -- llyfrau (2)
6. "Mewn ----- mae nerth" (5)
7. Nifer ochrau octagon (3)
8. "Beth yw byw? Cael ----- fawr
   Rhwng cyfyng furiau" (5)
10. Pryd bynnag (3)
14. Mwy nag un asen (3)
16. Gwledd (5)
19. Ymhob dull a --- (3)
21. "--- gwyn, --- draw" (3)
23. Ymrwymiad, cytundeb (4)
24. Mynd lan, mynd i ---- (4)
26. Ffres, gwyrddlas (5)
29. Un sy'n troelli (5)
31. Testun (4)
32. "Gwell ------ mewn llaw na dau mewn llwyn" (6)
33. Aderyn Branwen! (6)
34. Gwneud rhywbeth llesol, gwneud ------ (6)
39. Un rhan o air (3)
41. Gan yn ôl! (3)
43. "Ar ôl - - - - syched sydd" (4)
46. "Cân di bennill mwyn i'th ----
    Fe gân dy ---- i tithau (4)
47. Y cyfan, y cwbl -- (2)
48. "A chyn torri y piser gerllaw y ffynnon
    Neu dorri yr ---- wrth y pydew" (5)
51. Crefftwr sy'n gwneud pethau o goed neu gerrig (4)
53. Mae hanner torth -- well na dim (2)
54. Deg namyn un (3)
56. Llethr, bryn (3)
59. "-- ddaw henaint ei hunan
    Daw ag och gydag ef a chwynfan" (2)
60. Yn fwy isel (2)
61. " -- welais innau un prynhawn
    Dy hela yn y dyffryn bras" (2) (Y Llwynog – I.D. Hooson)

**Diolch i bapur bro yr Hogwr am gael defnyddio croesair o'u harchif trwy Mentrau Iaith Cymru.**

# Ysgol Penrhyn-coch

**Diwrnod y cofio**
Cafodd y plant fodd i fyw wrth greu darnau o gelf i gofio am y rhai a gollodd eu bywydau adeg y rhyfel byd cyntaf.

Cynlluniodd pob un o ddisgyblion bl 5 a 6 garreg gyda negeseuon pwrpasol ac yn ogystal a hynny bl 3 a 4 greodd boster o arddangosfa allan o babis porffor I gofio am yr anifeiliaid a gollodd eu bywydau hefyd.

Diolch i Lynwen Jenkins a Melina Holmes am drefnu'r arddangosfa tu allan I'r garej -roedd y plant wrth eu boddau yn ymweld â'r arddangosfa!

**Diwali**
Bu'r dosbarth Derbyn yn mwynhau gweithgareddau lliwgar a dathlu'r Diwali Dyma nhw'n creu patrwm Rangoli ar Hwb, creu lampau diva a pharatoi losin ladoo!

**Diwrnod Plant mewn Angen**
Eleni eto fe ddaeth y plant i'r ysgol yn eu pyjamas - diwrnod cyfforddus iawn!
Hoffwn ddiolch i Iona ac Ava o flwyddyn 2 am godi arian ychwanegol trwy gynnal heriau heini adref gyda'u teuluoedd. Cododd Iona £62 ac Ava £17.50! Cafwyd cyfanswm gret o £190 - diolch i bawb oedd wedi cyfrannu.

**Wythnos gwrth fwlio**
Eleni Bl 6 oedd yn gyfrifol am drefnu a lledaenu'r neges o wrth fwlio trwy'r ysgol. Heriwyd Bl 6 i feddwl am senarios i bob dosbarth yn ogystal a hynny fe wnaethon nhw baratoi fideo i rannu yn ein gwasanaeth rhithiol wythnosol. Roedd y fideo yn wych lle roedd pob disgybl ym Mlwyddyn 6 yn adrodd negeseuon positif ar sut I atal bwlio! Thema yr wythnos oedd 'Odd socks' i ddathlu'r ffaith bod pawb yn wahanol ac mae hynny i'w ddathlu!
Cafwyd hwyl yn ystod yr wythnos trwy amrywiaeth o weithgareddau!!
Creu pypedau allan o sanau-pypedau yn dynwared senarios
Pob plentyn yn yr ysgol I gwblhau darn jigso ac yna gosod y jisgso I greu un murlun mawr!

**Den dolig**
Trefnwyd ffair tra gwahanol eleni wrth werthu nwyddau hyfryd yn rhithiol ar-lein! Trafodwyd o fewn pob dosbarth ac fe gynlluniodd pawb eu nwyddau yn ogystal a chreu hysbysebion penigamp I roi ar 'Facebook' yr ysgol

Bu'r dosbarth Derbyn yn creu 'bathbombs' bendigedig a jariau eira/gliter!

Dosbarth Bl 1a 2 -Papur lapio Rwdolff a thagiau a phecyn o dri addurn I roi ar y goeden

Bl 3 a 4 -Pom Pom s Penrhyn-clustlysau pom poms sgleiniog, garland o sbrowts a plac pren hyfryd i gyfri'r diwrnodau tan y dolig!

Bl 5 a 6 -Mygiau llawn siocled, pwdin dolig serameg i ddal cannwyll a throellwyr siocled!

Mae'r ymateb a'r gwerthiant ym mhob dosbarth wedi bod yn ardderchog ac mae cyfanswm elw y pedwar dosbarth o gwmpas £850-WAW. Diolch i bawb fu'n prynu ac wrth sgwrs i sawl un fu'n helpu yn y cefndir!!

**Calendr yr ysgol**
Cofiwch bod ganddon ni galendr o waith y disgyblion ar werth yn yr ysgol - cysylltwch am gopi trwy ffonio - £6
Diolch i Laura James a Charlotte Hughes Evans am osod a chydlynu y calendr er mwyn ei roi at ei gilydd.

**Bags 2 school**
Cafwyd ymdrech cymunedol eleni wrth i ni gasglu bagiau o bethau a diolchwn yn fawr i'r gymuned ac i rieni'r ysgol am roi i'r achos yma- codwyd tua £210

**Golygfa'r Geni**
Mae'r plant wedi cael modd I fyw yn peintio cymeriadau'r geni I arddangos ym mharc y pentref - daeth y syniad trwy Llio a Derrick Adams ac rydym yn diolch iddyn nhw am gynnwys y plant i addurno. Ewch am dro i weld y cymeriadau lliwgar ac i gofio gwir ystyr y Nadolig!








# Ysgol Pen-llwyn

**Dydd y Cofio**
Coffawyd Dydd y Cofio gyda gwasanaeth arbennig a disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celf yn nosbarth 1 a gweithgareddau ymchwil yn nosbarth 2.

**Plant Mewn Angen**
Bu disgyblion y Cyngor Ysgol yn frwdfrydig yn trefnu gweithgareddau codi arian eleni ar gyfer Plant Mewn Angen. Gwisgodd bob plentyn pyjamas i'r ysgol, a chafwyd hwyl wrth gymryd rhan yn ymgyrch Aled Hughes ar BBC Radio Cymry #Actiadyoed. Llwyddodd nifer o'n disgyblion I redeg o gwmpas y cae top hyd at 9 gwaith yn unol à'u hoedran! Llongyfarchiadau blant ar godi £67 ar gyfer Plant Mewn Angen.

**Cystadleuaeth Ffotograffau Dewiniaid Digidol**
Llongyfarchiadau i Erin Williams a enillodd gystadleuaeth ffotograffiaeth dewiniaid digidol am dynnu ffotograff oedd yn cynrychioli'r Gwanwyn.

**Ffair Nadolig Rithiol**
Diolch i bawb a archebodd gynnyrch o'n ffair Nadolig. Mae disgyblion wedi bod yn brysur y mis yma yn cyflawni eich archebion. Mae disgyblion wedi gael hwyl wrth baratoi'r cynnyrch, creu hysbysebion i'w gwerthu sydd i'w weld ar ein tudalen Facebook, ac wrth gyfrif y ceiniogau a sicrhau eu bônt yn gwneud elw. Da iawn blant am feithrin eich



sgiliau entrepreneuriaeth! Entrepreneuriol??

**Gweithio ar y cyd**
**Wythnos Gwrth Fwlio**
Bu bwrlwm mawr wrth baratoi ar gyfer wythnos gwrth fwlio gyda disgyblion blwyddyn 6 yn cyflwyno gwasanaeth a gweithgareddau ar draws ysgol Pen-llwyn ac Ysgol Penrhyn-coch ar teams. Gwisgodd pob disgybl bâr o hosanau od er mwyn codi ymwybyddiaeth bod pawb yn wahanol, ac mai rhywbeth i ddathlu yw'r gwahaniaeth hynny. Mwynhaodd y disgyblion lu o brofiadau cyfoethog oedd yn eu hatgoffa i fod yn garedig ar bob adeg, yn cynnwys gwaith celf, gwaith perfformio a gwaith cyflwyno.















# Ysgol Rhydypennau

**Plant mewn angen**

Roedd hi'n ddiwrnod Plant Mewn Angen ar yr 20fed o Dachwedd. Yn anffodus oherwydd y sefyllfa gyfredol nid oedd modd cynnal ein stondinau arferol a chroesawu'r gymuned i'n plith i wario. Felly, cafodd y plant gyfle i wisgo gwisg o'u dewis a threfnwyd mân weithgareddau a thasgau difyr i gyd fynd gyda thema Plant mewn Angen eleni sef 'Act your Age!'Ar ddiwedd yr holl firi, casglwyd cyfanswm o £382.58.

**Codi Calon Cymuned**

Gan fod cyfyngiadau Covid yn parhau, doedd hi ddim yn bosib cynnal ein sioe Nadolig arferol eleni chwaith! Felly yn ystod dyddiau ola'r tymor trefnwyd amrywiaeth o weithgareddau i geisio tanio ysbryd y Nadolig ymhlith y plant a'r staff. Ac yn wir i chi, braf oedd gweld ymateb ardderchog gan bawb i gymryd rhan yn yr hwyl. Cafwyd sesiwn dweud jôcs Nadolig, gemau potes a chynhaliwyd ras Siôn Corn hefyd! Yn ychwanegol i hyn, fe aeth pob un plentyn ati i greu dyluniad addurn Nadolig arbennig; nid yn unig i ddathlu'r Nadolig, ond gyda'r bwriad hefyd i drosglwyddo negeseuon gobeithiol a rhoi gwên ar wyneb rhieni a thrigolion y pentref gan fod yr addurniadau bellach wedi'u harddangos tu allan i'r ysgol.

**Gweithgareddau**

Yn ddiweddar bu plant blwyddyn 3 yn brysur yn cynllunio, creu a blasu smŵddis. Bu plant blwyddyn un yn creu awyrgylch y ffair trwy chwarae gêmau amrywiol a bwyta cŵn poeth. Ac erbyn hyn, mae plant pob dosbarth wedi bod yn brysur yn addurno eu dosbarthiadau i greu naws Nadoligaidd yn yr ysgol.

**Ymddeol**

Mi fydd Mrs Bonsall yn ymddeol ar ddiwedd y tymor, wedi 43 o flynyddoedd o wasanaeth



fel athrawes yn ysgolion Ceredigion, a bron 30 mlynedd o'r rheiny fel athrawes Bl.1 yn Ysgol Rhydypennau. Rydym yn awyddus i drefnu casgliad ar gyfer anrheg i Mrs Bonsall er mwyn cydnabod ei blynyddoedd o wasanaeth diwyd. Danfonwch unrhyw gyfraniadau ymlaen i'r ysgol os gwelwch yn dda. Diolch yn fawr!

**Clwb Cant Rhagfyr**

Dyma'r canlyniad:
1af -£50- Angharad Rennie Davies.
2il-£30-Caryn ac Efan James
3ydd-£20-Tina James Evans.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Tincer!

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*
*@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*










# Geiriau Hapus

Wrth wrando ar y newyddion ar y teledu neu'r radio, neu ddarllen y papurau newydd, yr ydym yn ddyddiol yn dod ar draws geiriau sy'n disgrifio'r pethau negatif mewn bywyd. Clywir llawer yn rhy aml geiriau megis **damwain**, **llofruddiaeth, ymosodiad, terfysgaeth, ffrwydrad, hiliaeth, difrod**, ac yn y blaen. Rhaid wrth eiriau o'r fath i ddisgrifio a chofnodi beth sy'n digwydd yn y byd – dyna yw swyddogaeth iaith, sef bod yn gyfrwng i ni gyfathrebu'n effeithiol - ac i wneud hynny rhaid adrodd y da a'r drwg.

Yr oedd hoff grys t gan fy merch pan yn blentyn bach – un glas ydoedd a llun gwên fawr ar y tu blaen, ac ar y cefn 'roedd aralleiriad lliwgar o gofnod mewn geiriadur (er nid GPC!): – *Hapus: bodlon, dedwydd, llon, bendigedig, wrth fy modd.*


Roedd y crys t yn drawiadol ac yn tynnu sylw. Mi fyddai pobl yn ymateb iddo gan ddweud ei fod yn hyfryd, ac wedi rhoi gwên ar eu hwynebau. Disgrifiad y gair yn meithrin y teimlad. Mae gan eiriau bŵer.

Felly gyda'r bwriad o godi calon, dyma gip olwg **ysgafala** (ysgafn) ar rai o'r geiriau mwy anarferol yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru sy'n cyfleu neu ddisgrifio hapusrwydd neu lawenydd.

Rwy'n gobeithio eich bod yn darllen hwn ar **wiwdymp,** sef ar adeg ffafriol, a'i fod yn rhoi **heulfodd** (pleser gwych) i chi ddarganfod y geiriau. Rhaid dweud mai **hapuswaith** oedd chwilio'r fath eiriau, yn peri i mi ganu **llwyddwawd** (cân hapus) wrth weithio. Rydych yn **hyffawd** (ffodus) nad oedd modd i chi fy nghlywed! Gobeithio cewch fwynhau hydref **diaele** (diofal) a **chynedwydd** (dedwydd) yng nghwmni cyfeillion **breulon** (hynaws). Byddwch **wastadwyn** (hapus yn barhaus) a **ffriwlon** (llon eich gwedd). Ac os oes gennych gi, gobeithio ei fod yn **gynffonlon**!

Mae Geiriadur Prifysgol Cymru yn drysordy o eiriau o'r fath – porwch ynddo i ddarganfod y perlau. Rhowch wybod os oes gennych ar lafar unrhyw air diddorol am lawenydd neu hapusrwydd sydd heb ei gofnodi yno. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk), neu wrth ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol:

*Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH*



STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
Storfa Cartref a Busnes
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogi
Bocses a 'bubblewrap' ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk
Mid Wales Removals
Ffôn: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk

Trydan WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

SIOP SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland, Aberystwyth SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru


# Tasg y Tincer


Iestyn

Diolch i'r criw fu'n brysur yn lliwio llun y plant yn chwarae yn y dail y mis diwethaf. Daeth lluniau drwy'r post ac ebost, a dyma'r enwau: Math Roberts, Bont-goch; Carian, Tirion a Iestyn Evans, Y Borth; Noah Fox, Penrhyn-coch. Da iawn chi i gyd! A diolch i Math, Lois a Celt, Bont-goch, am y pentwr o luniau lliwgar gyrhaeddodd – am syrpréis! Daliwch ati.

Enw pwy ddaeth allan o het Siôn Corn gynta? Dy un di, Iestyn – llongyfarchiadau calonnog! Beth ydych chi'n ei hoffi mwyaf am yr adeg hon o'r flwyddyn, tybed? Ymweliad Siôn Corn? Canu carolau? Bwyta lot o siocled (gormod!)? Dwi'n mwynhau'r cyfan, a dwi wrth fy modd â'r goleuadau sy'n disgleirio ar y coed Nadolig. Ydych chi wedi gweld y teclyn sydd yn y llun o'r blaen? Yr enw arno yw menorah, ac mae miliynau o Iddewon dros y byd yn cynnau canhwyllau'r menorah wrth iddyn ddathlu gŵyl arbennig, a'i henw yw Hanukkah. Mae'n para am wyth diwrnod, gan ddechrau eleni ar 10 Rhagfyr a dod i ben ar 18 Rhagfyr. Fel ein Nadolig ni, mae Iddewon yn rhoi anrhegion i'w gilydd ac yn canu caneuon arbennig – ac yn bwyta pethau blasus! Beth am ddymuno'n dda i'ch ffrindiau trwy ddweud 'Hanukkah sameach!', neu 'Chag urim sameach!' sef 'Gŵyl Lawen y Goleuadau!' Mae sawl gwasanaeth a sioe Nadolig ar gael dros y we eleni, yn does? Cofiwch ymuno yn yr hwyl!

Y mis hwn, beth am liwio llun y menorah wrth i'r canhwyllau gael eu cynnau? Bydd un gannwyll yn cael ei chynnau bob dydd o'r ŵyl. Y shamash yw enw'r gannwyll yn y canol, a hon sy'n cael ei defnyddio i gynnau'r lleill yn eu tro.

Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 8fed Ionawr 2021. Ta ta tan toc, a Nadolig llawen i chi i gyd!



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD,
CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
Rhif 434 | Rhagfyr 2020